

# CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 331 - 60c  
Mawrth 2015

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Aelod Iau y  
Flwyddyn  
CFfi Sir Gâr



Tudalen 7

Hunangofiant  
Hen  
Labrwr



Tudalen 6

Lluniau  
Dathliadau  
Gŵyl Dewi



Tudalen 11 a 12

## Eisteddfod Ysgol Bro Pedr



Bardd y gadair Meirion Thomas.



Enillwyd y Goron  
gan Ceri Davies

## Perfformwyr Buddugol y Pantomeim



Aelodau CFfi Llanwenog



# Cystadleuaeth Panto CFI



Brawd a chwaer talentog o Glwb Dyffryn Cothi - Eirwyn Richards yn ennill y Perfformiwr Gorau dan 26 a Sulwen Richards yn ennill y Berfformwraig Orau o dan 16 yn Sir Gaerfyrddin yn Neuadd San Pedr.

Yn Sir Geredigion yn Theatr Felinfach, yr actor gorau dan 16 oed ac yn ennill y Darian a Thlws UAC oedd Rhys Davies, Clwb Llanwenog.

Gorsaf  
Brawf  
MOT

## GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- \* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- \* Teiars am brisiau cystadleuol
- \* Ceir newydd ac ail law ar werth
- \* Batris \* Breccs \* Egsost

\*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

## CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL  
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:  
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Trydarodd  
[@Clonc360](#)  
Chwefror 22

Llond Rookery  
#Llanbed o geir  
[@RaliBroCaron](#) ar  
nos Sadwrn ddigon  
oer.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd  
[@Clonc360](#)  
Chwefror 20

Llongyfarchiadau i  
[@cfillanwenog](#) am  
ennill Panto  
[@CeredigionYFC](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd  
[@Clonc360](#)  
Chwefror 20

Noson dda gyda Clive  
Edwards Cwmeils a  
[@CorCorisma](#) yn  
noson [@TheBHF](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd  
[@Clonc360](#) neges  
[@YsgolBroPedr](#)  
Chwefror 2

Y Sgets - 1af  
Creuddyn, a Dulas  
a Teifi yn gydradd 2il  
[#steddfodbropedr](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd  
[@Clonc360](#)  
Chwefror 7

Oes yna fygythiad i  
gartref [#HafanDeg](#)  
[#Llanbed](#)?

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd  
[@Clonc360](#)  
Chwefror 7

Diwrnod da iawn yng  
Ngŵyl Gwrw [#Llanbed](#)  
yn [@drindoddewisant](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



# Pwy yw pwy?

# Beth yw beth?

## Golygydd:

Mawrth Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526  
Ebrill Delyth Phillips, Llety Clyd, Llanbed 422992  
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Dylan Lewis,  
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349  
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590  
e-bost: bedwyr@btopenworld.com  
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

## Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001  
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922  
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies  
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507  
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238  
Llanbed Janet Evans, Haulfryn 422856  
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407  
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325  
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218  
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239  
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257  
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

## Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349  
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk  
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855  
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015  
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambod 422644  
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogrir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

## Siprys

### Cyfoeth CFfl

Gallwch chi dynnu Cloncen mas o'r wlad, ond allwch chi ddim tynnu'r wlad mas o Cloncen! Hyd yn oed yn groten ysgol roeddwn i'n ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng plant cefn gwlad a 'townies' y dre. Ac waeth i chithau gyfaddef, waeth pa ochor y ffens rydych chi wedi cael eich magu, y mae yna wahaniaeth!

Atgyfnerthwyd y ffaith hon i fi fis diwethaf wrth glywed y newyddion bod Llywodraeth Cymru yn bygwth dileu grant gwerth £360,000 i fudiad Ffermwyr Ifanc Cymru. Yn ôl y disgwyl, bu trafod a chwyno ar Taro'r Post ac ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag ar lawr gwlad. Gwyddom yn ardal Clonc mor bwysig yw'r mudiad i'n hieuenctid - fyddai'r papur hwn yn denuach bob mis oni bai am adroddiadau, straeon a lluniau'r rhychwant o weithgareddau y mae'r clybiau lleol yn ymwneud â nhw. Dyma fudiad sy'n darparu cymaint o gyfleon; gallwn i amlhau geiriau, ond mewn gwirionedd, mae'n amhosib mesur ei gyfraniad.

Rydym yn ymwybodol fod arian yn brin, ei bod hi'n rhaid torri'r got yn ôl y brethyn, ond rydym hefyd yn sylweddoli'r gagendor mawr rhwng Caerdydd a chefn gwlad Cymru. Meddai Lowri Jones, un o gyn-freninesau CFfl Ceredigion, "Tybed a fydde Lywodraeth Cymru yn fwy tebygol o roi arian i fudiadau mewn rhywle poblog fel Caerdydd, yn lle ardaloedd gwledig lle mae llai o bleidleiswyr?" Ac fe ddywedodd Bethan Gwanas yn graff iawn, "Hoelen arall yn arch cefn gwlad. Gwario ar fywyd gwyllt ond nid pobl".

Mae'r mis bach wedi bod yn fis creulon o safbwynt colli mawrion ein cenedl, pobl sydd wedi credu yn ein hanes ac yn ein dyfodol fel Cymry. Mae eisiau i ni, bawb ohonom, boed yn ifanc neu'n bwrw 'mlaen mewn oedran, sylweddoli mor bwysig yw hi inni ymladd dros bethau sy'n agos at ein calonnau ac yn yr hyn a gredwn - y pethe sy'n ein gwneud yn Gymry Cymraeg sy'n byw yng nghalon y Gymru wledig.

Roedd hi'n rhyddhad clywed bod trafodaeth wedi bod rhwng y mudiad a Llywodraeth Cymru, a gobeithio bod canlyniad y ddeialog honno wedi bod yn gyfle i lawer yn ein gwlad ddysgu am holl gyfoeth y CFfl. Ymlaen!

Cloncen



## Colofn Cefn Gwlad gan Helen Howells



Llun gan Luke Maggs, Chwefror 2015.

### Y Saith Seren Siriol

Mae'r tymor wyna wedi cychwyn yn Tycam ac wrth fynd allan i'r sied cyn iddi wawrio, ar noson glir, mae clwstwr o sêr disglair yn cymryd fy sylw. Mae'r mwyafrif ohonom yn gallu adnabod Gwregys Orïon a'i dair seren flaenllaw, ac os wnewch chi ddilyn llinell syth tua'r Gorllewin, mi ddewch o hyd i'r Saith Seren Siriol neu'r Pleiades. Gan fod y clwstwr yma yn agos i'r ecliptig, mae'n codi gyda'r wawr yn ystod y Gwanwyn yn hemisffer y Gogledd ac yn dynodi cychwyn y tymor amaethyddol.

Mae'r Pleiades wedi bod yn destun chwedloniaeth ers bodolaeth, ac mae yna wahanol storiâu am y sêr o bob cefndir. Mewn chwedlau Groegaidd, saith chwaer oeddynt: Maia, Electra, Alcyone, Taygete, Asterope, Celeano a Merope. Eu rhieni oedd Atlas, Titan oedd yn dal yr awyr yn ei lle, a Pleione, gofalwraig llongwyr. Mae'r chwedl yn sôn fod Zeus wedi troi'r chwiorydd yn haid o golomennod a'u gyrru i'r nefoedd, wedi iddynt hwy gael ei chwrsio ar draws y Byd gan Orïon.

Dim ond chwech o'r Sêr fedrwn ni weld yn glir gyda'n llygaid. Mae yna sawl stori

Roegaidd am ddiffaniad y seithfed seren. Yn ôl un stori, mi oedd y Pleiades i gyd yn gonsortwyr i'r Duwiau, ond am Merope. Mi wnaeth hi adael eu chwiorydd dan gywilydd, wrth iddi briodi meidrolyn, y Brenin Corinth.

Mewn chwedloniaeth yr Indiaid Americanaidd, soniwyd mai Saith Morwyn oedd y Pleiades a wnaeth grwydro'n rhy bell o'r gwersyll. Cawsant eu hachub gan yn 'Ysbryd Mawr' wrth iddynt gael eu hyrddio gan eirth, a throdd hwy i mewn i'r Sêr. Defnyddiwyd y stori yma ganddynt i warchod merched a phlant ifanc rhag crwydro'n rhy bell. Defnyddiwyd y sêr fel rhyw fath o brawf llygaid gan yr Indiaid. Mi fyddai'r nifer o sêr yr oedd dynion ifanc yn gallu adnabod yn dynodi eu swyddi o fewn y gwersyll. Dim ond y bechgyn oedd yn medru gweld y chwe seren oedd yn cael eu hyfforddi i fod yn helwyr.

Yn Siapan, mae'r clwstwr yn cael ei adnabod fel Sabr, sy'n golygu 'dod at eich gilydd'. Defnyddiwyd y chwe seren fel logo'r cwmni ceir Subaru, sy'n dynodi'r pum cwmni daeth at ei gilydd i greu'r un newydd.

Cefais brofiad gwych yn ystod yr wythnosau diwethaf i weld sioe 'Planetarium Digidol' gan gwmni Dark Sky Wales. Mi wnaeth e fwrw adref y ffaith ein bod ni'n agosach at y Gofod nad yr ydym i Gaerdydd, gan ei fod ond 60 milltir o wyneb y Ddaear. Mi wnaeth cyfaill imi gymryd y llun yma o'r Pleiades uwchben Mynydd Rhigos yng Nghwm Rhondda gan ddefnyddio telesgop yr wythnos diwethaf.



## MAWRTH

6 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambod Cynradd ac Uwchradd.  
6 Cwrdd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn San Tomos Llambod 2yp.  
6 Bingo Pasg C.Ff.I. Llanllwni yn Nhafarn Talardd, Llanllwni am 8y.h.  
Gwobrau ariannol a lluniaeth ysgafn ar gael.  
6 Cawl a Chwist Sefydliad y Merched Llanfair Clydogau yn Neuadd y Pentref am 7.30yh.  
7 Te a Ffair i godi arian a gwybodaeth am Apêl Bandi i godi canolfan newydd i blant Ysbyty Glangwili 2y.p. yn Festri Aberduar, Llanybydder.  
9 Adloniant gan Gangen Felinfach ym Merched y Wawr Llanbed yng nghapel Shiloh am 7.30yh.  
10 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd Llambod.  
12 Rhoi Gwaed yn Neuadd y Celfyddydau 10.30-1.30 a 3.00-6.30.  
13 Cawl a Chên yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen am 7.00y.h.  
Artistiaid: Plant yr Ysgol Leol ac Aelodau C.Ff.I. Llanwenog.  
15 Oedfa Sul y Mamau Noddfa am 5.00y.p.  
16 Eisteddfod Rhanbarth Aelwydydd yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth.  
18 Arwerthiant Cymdeithas Chwiorydd Aberduar yn y Festri am 7 y.h.  
20 Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.  
21 Eisteddfod Rhanbarth Cynradd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.  
24 Eisteddfod Rhanbarth Dawns yn Theatr Felinfach.  
24 Ysgol Feithrin Llanybydder yn cynnal Bingo yn y Clwb Rygbi 8 yh.  
25 Ken Lewis yn siarad am ei fywyd a'i waith yn y Grannell, Llanwnnen am 8y.h. Trefnir gan Gynghrair Cymuned Ward Llanwenog.  
28 Diwrnod Hwyl y Pasg Cylch Meithrin Carreg Hirfaen yng Nghanolfan Cymuned Cwmann 2 - 4.30yp.  
28 Cynghrair Dartiau Llambod yn cynnal noson yn Neuadd Fictoria - Cymru (Warren a Lewis) yn erbyn Lloegr (Winstanley a Bunting).

## EBRILL

3 Gorymdaith Gwener y Groglith trwy Lamberd yn dechrau 9.30y.b. o Gapel Brondeifi.  
5 Oedfa Gymun Unedig yn Noddfa am 9.30 y.b.  
5 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel y Groes, Llanwnnen. Plant a'r Ieuencid am 4 a'r Oedolion am 5.  
6 Taith Tractorau a drefnir gan Tom Lewis Pencader yn cychwyn o Cross Roads, Llanllwni am 10.30yb. Elw tuag at Ymchwil Leukaemia.  
8 Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen i ddechrau am 1.30y.p.  
10 C.Ff.I. Llanllwni yn cynnal Tipit yn Nhafarn Talardd.  
10 Noson Rasmus Moch CFfI Cwmann yng Nghlwb Rygbi Llanbed.  
12 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant. Plant a'r Ieuencid am 4 a'r Oedolion am 5.  
13 Bingo Pasg yn cael ei gynnal yn Nhafarn Talardd Llanllwni am 8y.h. gan Gylch Meithrin Llanllwni.  
13 Caligraffeg gan Ieuan Rees ym Merched y Wawr Llanbed yng nghapel Shiloh am 7.30yh.  
19 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel y Graig, Llandysul. Plant a'r Ieuencid am 4 a'r Oedolion am 5.  
9 Sioe Ffasiwn duet a Lan Lofft yng Ngwesty TyGlyn Aeron am 2.00yp. Elw tuag at Motor Neurone. Tocynnau yn £12 drwy ffonio 422508.  
26 Cerddoriaeth fyw yn Llanfair Clydogau.  
26 Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel y Graig, Llandysul. Plant a'r Ieuencid am 2.00y.p. a'r Oedolion am 5.30y.p.  
26 Rihysal Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr yng Nghapel Bethel Caio.

## MAI

2 Eisteddfod Capel y Fadfa, Talgarreg. Cysylltwch â Emyr Griffiths 01545 590383 neu Enfys Llwyd 01545 590295.  
2 Rali CFfI Sir Gaerfyrddin.  
4 Calan Mai yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd.  
7 - 10 Recordir rhaglen 'Noson Lawen' yn Llambod.  
11 Cyfarfod Blynnyddol Merched y Wawr Llanbed yng nghapel Shiloh.  
15 Noson Goffi Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn Festri Aberduar am 7.00y.h.  
17 Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr Caersalem Parcyrrhos am 2.30y.p.  
24 Cymanfa Ganu'r Annibynwyr yn Shiloh, Llanbed am 5.00yh.  
25 Arwerthiant Cist Car ym Mhumsaint 10yb - 1yp. £5 y car. Trefnir gan gangen Pumsaint Sefydliad y Merched.

## MEHEFIN

5 Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau.  
6 Rali C.Ff.I. Ceredigion yn Llanddewi Brefi.  
7 Cymanfa'r Rali yng Nghapel Bethesda, Llanddewi Brefi.

# Clwb Clonc

## Mawrth 2015

£25 rhif 458 :  
Glenys Thomas,  
Llys Teifi, Llanybydder.  
£20 rhif 48 :  
Teulu Davies,  
Gwarffynnon, Silian, Llambod.  
£15 rhif 522 :  
Lyn Young,  
Tanyfron, Heol Llanfair.  
£10 rhif 397 :  
Ifora Parry,  
Panteg, Maescrugiau.  
£10 rhif 514 :  
Lowri Wilson,  
Gwynfryn, Cwmann.  
£10 rhif 430 :  
Ceinwen Roach,  
Maes-yr-Wyn, Llanwnnen.  
£5 rhif 139 :  
Daniel Evans,  
Tandderi, Llanwenog.

# Gorsgoch

## Cydymdeimlad

Yn ystod y mis clywyd am farwolaeth Mrs Sally Thomas, Is y Coed. Nid oedd wedi mwynhau'r iechyd gorau ers peth amser ac fe fu yn ffodus i gael aros yn ei chartref a derbyn y gofal gorau yno. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda'i phriod Elfet, ei mab a'i briod Daniel a Roselle, ynghyd â'r wyrion Rhodri a Nia yn eu galar o golli person annwyl iawn. Bu'r angladd yn breifat yng Nghapel Brynhafod.

## Ennill Cadair

Llongyfarchiadau i Helen Jones Cwm Teg, Abercych (Maesygarth) ar ennill cadair Eisteddfod Cynnwyl Elfed yn ddiweddar.

## Neuadd yr Hafod

Cynhaliwyd Rasmus Parlwr i godi arian i Neuadd yr Hafod, yng Nghewn Hafod, lle cadwyd tua £1500. Diolch o galon i Barclays am roi punt am bunt.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth a braf yw gweld y neuadd yn dod yn ei blaen a'r gwaith yn parhau.

# Gellan

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhys a Rhian Williams, Bayliau, ar enedigaeth bachgen bach, Gwyn Ifan, brawd bach i Nia. Hefyd llongyfarchiadau i Bleddyn ac Ann Williams, Cnwcyfallen am ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto. Ein dymuniadau gorau i chi.

**TEIARS HUW LEWIS TYRES**

01570 481153 / 07915543623

Caerwenog, Penffordd, Llanybydder, Ceredigion, SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau haearn ac hefyd eich holl waith weldio ac atgyweirio

**Weldio D & W Welding**

01570 481153 / 07915543623

Caerwenog, Penffordd, Llanybydder, Ceredigion, SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau haearn ac hefyd eich holl waith weldio ac atgyweirio

**Mwnici ffwnci**

Brodweithio a Phrintio Dillad. Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.

**Sioned Green a Mared Jones**  
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambod  
☎ 01570 423135  
☎ 07811917799 / 07968821035  
✉ mwniciffwnci@hotmail.com

**Gwasanaethau Coed Teifi Tree Services**

Pob math o waith ar goed  
Torri cloddiau \* Plygu cloddiau  
Wedi yswirio'n llawn  
Dyfnbris am ddim  
Coed tân ar werth  
Lyn Davies  
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

**D. Lloyd a'i Feibion**  
Glanrwyth, Pumsaint,  
Ffôn: 01558 650209 a 650451,  
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed a nwyddau adeiladu a ffensiô o bob math Glo caled a glo meddal o'r ansawdd gorau**





Llysoedd Eisteddfod Uwchradd: Dulas - o'r chwith - Luned Jones, Gareth Jones, Hannah James Ceri Davies a Ieuan Wyn Rees, yn ennill gyda 501 o farciau. Teifi - Rhys Jones, Alis Butten, Twm Adams ac Elin Hughes, yn ail gyda 493 o farciau. Creuddyn - Rhodri Williams, Sam Whittingham, Meinir Davies a Lois Thomas, yn drydydd gyda 479 o farciau.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg y Rotari a gynhaliwyd yn Ysgol Bro Pedr dydd Mercher, Ionawr 28ain. Tîm Ysgol Bro Pedr enillodd y categori 11 – 13 oed. Aelodau'r tîm oedd Lucy Hill, Bea Cassidy ac Eleri James. Gyda nhw mae'r Pennaeth, Mr. David Williams.



Capteiniaid (Gareth Jones a Hannah James) gyda phrif enillwyr Ty Dulas wedi eu llwyddiant yn ennill yr Eisteddfod Uwchradd.


## Campws Iau

Llongyfarchiadau gwresog i Jessica McDonagh ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth sirol Cogurdd a dim ond hanner marc o'r safle cyntaf. Roedd yn bleser gweld y salad ffrwythau, myffins a'r smwddi - da iawn ti Jess.

Yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd ar lefel Cymru, cipiodd Filip y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y bechgyn unigol a Faye a Filip yn dod yn bumed fel pâr. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau a diolch i Mr Rees am eu paratoi.

Bu blwyddyn 6 Arthur yn brysur yn cwblhau cystadleuaeth SUMDOG rhwng y 23ain a'r 29ain o Ionawr a llwyddo i sgorio 831 o bwyntiau gan ateb mil o gwestiynau yn yr ysgol a gartref. Gorffennodd 6 Arthur ar y brig allan o dri deg dosbarth yng Nghymru a daethant yn 13eg allan o 2002 o ddosbarthiadau trwy wledydd Prydain. Ysgol Reffley yn Lloegr oedd yn fuddugol a dim ond 84 pwynt o flaen 6 Arthur. Tipyn o gamp a diolch i Mr M Davies am drefnu. Byddant yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth nesaf ar ôl hanner tymor ac yn gobeithio gwella ar eu sgôr!

Daeth Mr Urdd i ymweld â'r ysgol ar Chwefror 6ed gan fod y plant wedi gwisgo mewn dillad coch, gwyn a gwyrdd. Codwyd swm sylweddol tuag at waith yr Urdd a diolch i bawb a gyfrannodd. Gwnaeth disgyblion blynyddoedd 5 a 6 fwynhau taith arbennig iawn i'r amgueddfa yn Abertawe fel rhan o'r Thema 'Blitz' a chafwyd cyfle i sgwrsio a holi cwestiynau yn ogystal â gweld arteffactau o'r cyfnod.



Llongyfarchiadau i Jessica McDonagh, Ysgol Bro Pedr am dderbyn yr ail wobr yng nghystadleuaeth sirol Cogurdd.



Daeth Filip o Ysgol Bro Pedr yn gyntaf yng nghystadleuaeth Gymnasteg Cymru i fechgyn. Daeth Filip a Faye yn bumed fel pâr yn yr un gystadleuaeth. Da iawn chi.



Yn ystod diwrnodau ABCh mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ddysgu am wahanol agweddau Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

Yn ystod mis Rhagfyr bu disgyblion bl.8 yn dysgu am ddigwyddiadau Canolfan y Bont mewn un sesiwn ac yn creu bathodynau daffodil i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a'u gwerthu mewn un arall.

Bydd yr arian a godwyd yn mynd at Ganolfan y Bont er mwyn prynu 'Sound Beam'.

## Cyffes

Cofiaf y cyfnod euraidd  
a'r machlud orenbiws  
yn cofleidio'r gorwel;  
rhuddem ei wên  
yn fy nallu,  
a'i eiriau ffug  
yn fy hudo.  
Yr holl atgofion  
yn polcadotio fy nghalon.

Ond, try'r cariad yn uffern,  
y cofleidio yn bwnio,  
y cynhesrwydd yn oerfel iasol,  
y rhuddem yn saffir,  
a'r cyfferdidiad melfedaidd  
yn sgrech oerllyd.

Gwadu'r gwirionedd  
drwy wenu'n ffals,  
yr euogrwydd yn fy llethu.  
Cuddio'r gwir  
tu ôl i fwgwd  
a chofio ha' bach Mihangel  
ein perthynas.

Bellach,  
rhoi heibio i'r ffugio,  
rhoi heibio i'r twyllo,  
rhoi heibio i'r ofn.  
Fy nyfodol yn gwawrio  
wrth i mi gyffesu'r trais.

Iaf - Dau Wynebog  
Meirion Thomas (Dulas)



# Hunangofiant Hen Labrwr gan Tommy Williams, Altyblaca

## Pennod 1

Cefais fy ngeni ar 2 Rhagfyr 1928 ym mhentref Pennant mewn tŷ o'r enw Ynys House. Pentref bach oddi ar arfordir Ceredigion yw Pennant o fewn pedair milltir i Aberaeron a phedair milltir a hanner i Lanon. Enw fy mam oedd Dorothy Alice Williams, neu Barton cyn priodi. Enw fy nhad oedd Daniel Lewis Williams. Fi oedd yr unig blentyn. Roedd tad-cu a mam-gu yn byw yn yr un tŷ. Pan oeddwn i yn bedair oed fe aethom i fyw ychydig dros ddwy filltir i ffwrdd i Cilcennin i le o'r enw Plasbach oedd tua milltir y tu fas i'r pentref. Gwaith fy nhad oedd mynd o gwmpas ffermydd yr ardal yn dala cwningod – trapper yn Saesneg.

Cafodd mam ei geni yn Reading yn Lloegr ac adeg y Rhyfel Byd Cyntaf daeth fy mam i Felin-fach fel Land Girl. Pan oeddwn yn bump oed mi es i'r ysgol am y tro cyntaf a cherdded oedd hi bryd hynny gyda phlant eraill o'r tai cyfagos - o lefydd megis Blaenlluest lle roedd pedwar o blant, Bethlehem lle roedd dau blentyn ac yna o Gorslwyd lle roedd yna dri phlentyn. Mynd wedyn heibio tŷ o'r enw Mount ac yno roedd Oswald yn byw a fe oedd un o'm ffrindiau gorau. Crydd oedd ei dad, sef Issac Morgan. Yna roedd fferm o'r enw Crug Garn lle roedd pedwar neu bump o blant a'r cof sydd gennyf yw bod y tad yn ddyn strict iawn. Un tro roedd yn torri twll i wneud plwmp i gael dŵr a dyma ni'r plant yn chwarae o gwmpas y plwmp. Daeth y tad mas o'r tŷ â chwp a honno yn cael ei thaflu rownd a rownd ein coesau. Fuon ni ddim yn hir cyn rhedeg bant.

Pan oeddwn yn bump oed daeth yn adeg mynd i'r ysgol am y tro cyntaf ond doeddwn i ddim yn hapus iawn. Mewn â ni yn un rhes i'r ystafell enfawr – wel roedd hi i weld yn fawr i ni ar y pryd. Desgiau dwbl oedd yno ac mi es i eistedd drws nesaf i Ianto, Bryn. Ches i ddim gwneud llawer y diwrnod hynny.

Roedd rhieni Ianto yn cadw siop yn y pentref ac fe fuon ni yn ffrindiau agos drwy holl ddyddiau'r ysgol. Enw'r prifathro oedd Mr. Ellis. Roedd e yn galler bod yn gas ar adegau ac yn hoffi iwso'r gansen. Tocyn sych oedd i ginio pryd hynny ond fe ddaeth hi'n well mewn blwyddyn neu ddwy pan ddaeth cawl i ginio bob dydd. Roedd pawb yn gorfod dod â thato a llysiau. Gwnaed y cawl mewn cegin oedd hefyd yn rhan o ddosbarth dysgu. Y gogyddes oedd yn gwneud y cawl ac mi fyddai'n barod erbyn deuddeg o'r gloch bob dydd. Gan mod i yn byw mewn tŷ bach doedd dim modd i mi ddod ag unrhyw fwyd ar gyfer y cawl a phlant y ffermydd oedd yn cyfrannu bron y cyfan o'r bwyd at wneud y cawl.

Tra bum yn yr ysgol roeddwn mor dwp a stên yn gwneud syms. Roedd dwy iard chwarae yn yr ysgol, sef un i'r bechgyn a'r llall i'r merched. Duw a'ch helpo os bydde'r sgwlyn yn eich dal yn croesi'r ffin. Roedd un athrawes arall yno ond dwi ddim yn cofio ei henw. Yr adeg hynny roedd bron pawb yn aros nes eu bod yn bedair ar ddeg ac felly biti bod yn ddynion a menywod. Pryd hynny roedd pawb yn gorfod parchu'r ysgolfeistr. Byddem yn dweud 'Bore da sir' ac wrth ddweud yn saliwio yr un pryd. Dim ond y pethau elfennol y byddem yn eu dysgu gan edrych ymlaen, yn wir yn awchu, at adael yr ysgol.

Pêl droed oedd y bechgyn yn chwarae ac fe fyddai ambell i ffeit yn digwydd tu cefn i'r ysgol. Fel y soniais, erbyn hyn roeddem yn cael cawl bob dydd i ginio ac adeg y rhyfel rwy'n cofio un diwrnod arbennig pan doedd neb o gwbl moyn y cawl, heblaw amdanaf i. Wedyn fe ges i wybod pam nad oedd neb arall wedi ei fwyta a hynny oherwydd bod un o'r faciwis wedi piso ynddo.

Pan oeddwn tua saith oed aeth mam bant gyda mab fferm oedd yn byw heb fod ymhell o'n tŷ ni, sef Grey o Ffoshelyg. Roedd rhaid mynd yn ôl nawr o Gilcennin i Pennant at mam-gu ac wncwl Jack, sef brawd i'n nhad. Pallais yn deg â mynd i ysgol Pennant oedd ar

bwys. Gwell oedd gyda fi gerdded bob cam nôl i Ysgol Cilcennin a oedd tua thair milltir o bellter. Wedi'r cyfan, yno oedd fy ffrindiau. Am flwyddyn y bues yn cerdded felly bob dydd a hynny hyd nes symudodd mam-gu a wncwl Jack i fyw i Cilcennin i le o'r enw Lyra Villa a wedyn doedd dim llawer o waith cerdded o'r fan honno i'r ysgol. Cyn pen blwyddyn daeth mam nôl adref a'r syndod oedd, fe gymerodd 'nhad hi nôl.

Pan oeddwn tua 11 oed fe ddechreuodd y rhyfel a dyma'r faciwis yn dod i'r ardal wrth iddynt ddianc o'r trefi mawr. Roedd pawb oedd â stafell wely sbâr yn gorfod cymryd un neu ddau faciwî a'r adeg hynny y gwnes i ddysgu Saesneg gyntaf. O'n ni ddim wedi clywed llawer o Saesneg cyn hynny. Adeg tymor y mwyar duon roeddem i gyd fel plant yn gorfod mynd i hel mwyar a mynd â nhw i'r ysgol. Yno deuai rhywun i'w pwyso a mynd â nhw bant i wneud jam, mynten nhw! Buon ni yn hel mes o goed deri hefyd ond ni chafwyd llawer o lewyrch ar hynny.

Cafodd pob plentyn 'gas mask' a rhaid oedd ei gario gyda ni i bobman. Yn Cilcennin roeddwn yn galler gweld y môr yn y pellter a heb fod ymhell i ffwrdd roedd tref Aberaeron lle roedd y milwyr yn dysgu saethu at dargedau. Byddai awyren yn hedfan dros y môr yn tynnu llinyn ac yn hongian oddi wrtho roedd targed o gynfas lliw coch a gwyn. Yn aml, er mawr ddifffyrwch i ni'r plant, byddai'r awyren yn hedfan mewn i'r tir a thros y pentref cyn dychwelyd dros y môr lle byddai'r sowldiws yn taro'r targed. Yn y cyfamser gadawodd Mr Ellis yr ysgol i fynd i ddysgu yn Ysgol Uwchradd Aberaeron a daeth Miss Lewis yn ei le fel ysgolfeistr. Doedd hi ddim cystal â Mr Ellis. Ar ddiwedd y rhyfel yn hytrach na mynd nol i'w cartrefi eu hunain mi safodd rhai o'r faciwis yn yr ardal.

Yn ystod yr haf roedd fy nhad yn gwneud yr ardd yn y County School yn Aberaeron. Ambell i ddydd Sadwrn roeddwn i'n cael mynd gydag ef. Yn y prynhawniau byddem yn mynd i'r pictiws yn Neuadd y Dref. Byddai'r ddau ohonom yn dychwelyd adref ar y trên o Orsaf Aberaeron i Orsaf Ciliau Aeron ac yn cerdded tua milltir a hanner o'r fan honno. Mae un siwrnai yn dal i sefyll yn glir yn fy meddwl. Wrth ddisgyn o'r trên yng Ngorsaf Ciliau Aeron, yn hytrach na cherdded, ces fynd mewn at y gyrrwr i'r injan. Aethom ymlaen mor bell â'r gyffordd a neidio allan y fan honno a 'nhad yn gwneud yr un peth. Roeddwn yn fachgen balch iawn y diwrnod hwnnw ac anghofia i byth o'r siwrnai honno.

Yn ystod yr haf byddai'n olygfa gyffredin gweld tua hanner dwsin o garafanau sipsiwn. Rwy'n cofio rhai ohonyn nhw fel Jack Llangadog, Elen Morris oedd yn smocio pib glau a Hopkins a gartrefodd yn yr Orfa Ddu. Bu dau o'i fechgyn ef yn y fyddin.

Rwy'n cofio tro arall pan aeth 'nhad a fi i weld awyrennau. Doedd dim rhaid mynd yn bell iawn, dim ond i Morfa Mawr ger Aberarth. Aeth 'nhad at un o'r peilotiaid a gofyn am reid yn yr awyren. Gofynnodd y peilot iddo a oedd yn mofyn loop-in-the-loop. "Oedd," atebodd fy nhad. Pan ddaeth allan o'r awyren mi roedd mor wyn â'r galchen a dwi'n siŵr nad oedd ei drôns yn lân iawn chwaith.

Y pryd hynny, dydd Calan oedd y diwrnod mawr – mwy felly na dydd Nadolig. Byddai fy ffrind Ianto, Bryn a minnau yn hel calennig gan ddechrau yn fore a chasglu hyd amser te. Un tro gwnes brynu pecyn o woodbine am ddwy geiniog a hanner a chael pump sigarét yn y pecyn ond ges i ddim llawer o lwyddiant ar y smygu. Mater gwahanol oedd hi wedi i mi adael ysgol achos fe fues yn ddiweddarach yn smygu'n eithaf trwm.

Dwi'n mawr obeithio eich bod wedi cael bach o flas ar fy mhientyndod cynnar a'ch bod ag awydd cario ymlaen i ddarllen.



Mwy na brocer yswiriant.  
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?  
Yswirio'n lleol.

**Gwasanaethau Yswiriant FUW**  
21 Stryd Fawr, Llanbed  
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556  
Carys Davies: 07890 883346  
Gwion James: 07980 608337

[www.fuwinsurance.co.uk](http://www.fuwinsurance.co.uk)

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

## Gerald Morgan Morgan YOUTUBE

Gerald Morgan FY NGALWAD  
Gerald Morgan CORON DRIPHYLG  
Gerald Morgan yn canu CÂN WYNA

## COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl  
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol  
Llanbed, Heol Tregaron,  
Llanbed.

☎ 01570 422955  
☎ 01570 422232

## Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

19 Stryd Fawr,  
Llanbed

Oriau Agor:  
Llun - Sadwrn 12 - 9  
Sul - ar gau

## CANOLFAN ADDURNO AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac  
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a  
phwerau, Polion a thraciau llenni,  
gwasanaeth torri allwedd i  
pheiriannau cymysgu paent  
Dulux a Leyland.

*Arbenigedd ar garreg eich drws.*

3 Stryd y Bont  
Llanbedr Pont Steffan  
01570 423156



# Llanllwni



Llywydd CFFi Sir Gaerfyrddin John James yn cyflwyno cwpan i Owain Davies, Clwb Llanllwni fel Aelod Iau y Flwyddyn mewn seremoni yn Neuadd San Pedr Caerfyrddin. Llongyfarchiadau gwresog i ti Owain. Rwyd yn haeddu'r anrhydedd.



Alwena Mair Owen yn ennill y cwpan am Lefaru 6-8 oed a'r wobwr gyntaf ar yr Alaw Werin dan 12 yn Eisteddfod Dihewyd, ac yn cael y wobwr gyntaf am Lefaru 6-9 oed ac ail yn yr unawd 6-9 oed yn Eisteddfod Cenarth ac yn ennill y tlws am y perfformiad mwyaf addawol o dan 18 oed yn y Llefaru.



Sioned Howells, New Inn yn fuddugol ar ganu'r piano oedran Ysgol Uwchradd yn Eisteddfod Dihewyd.



Yn fuddugol ar y Cerdd Dant 12-18 oed yn Eisteddfod Dihewyd oedd Lois Thomas, Llanllwni. Lois hefyd a enillodd y Llefaru a'r Unawd.

## Ysgol Llanllwni

Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 wedi treulio pum dydd Llun yn Ysgol Llanybydder yn yr orsaf iaith gan ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Diolch i Ysgol Llanybydder am y croeso.

Gwisgodd nifer o'r plant a staff yn lliwiau'r Urdd ar ddiwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd yr Urdd Cylch Llanbed. Cafodd Mr Urdd a Rhyddian groeso pan ddaethant heibio ar eu taith o gwmpas ysgolion y cylch.

Mae Miss Charlotte Evans wedi dechrau Clwb Zumba yn yr ysgol i blant blynyddoedd 2-6. Mae pawb yn mwynhau'r sesiynau mas draw.

Mae'n amser aelodaeth ein Clwb Cefnogwyr unwaith eto. Os hoffwch barhau a'ch aelodaeth neu ymuno o'r newydd a wnewch gysylltu â'r ysgol ar 01559 395624 os gwelwch yn dda. Rydyn yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth tuag at yr ysgol yn fawr.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol:- Mis Chwefror 2015: 1af - £10 - 190 - Mair Jones, Felingelli, New Inn. 2ail - £5 - 124 - Aled Davies, Sŵn y Nant, Felinfach. 3ydd - £5 - 273 - Moira Jones, Felingelli, New Inn.

## C.Ff.I. Llanllwni

Bu'r clwb yn brysur iawn yn codi arian at elusennau haeddiannol iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a nos Fawrth y 27ain o Ionawr fe gafwyd noson er mwyn cyflwyno'r sieciau yma. Trosglwyddwyd elw'r Sioe a'r Treialon Cŵn Defaid i Ysbyty Bryste, swm o £1762.16. Derbyniwyd y siec gan Elin Evans a'i theulu, sydd wedi derbyn triniaeth werthfawr yno ers sawl blwyddyn bellach. Yn ogystal, aeth swm y canu carolau, sef £1047.77 tuag at Uned Cancr y Fron, Ysbyty

Tywysog Phillip, Llanelli. Hefyd, mi safodd elw casgliad y Cwrdd Diolchgarwch, sef £50, yng nghoffrau'r clwb.

Aeth criw o aelodau a chefnogwyr y clwb i Neuadd San Pedr nos Sadwrn olaf mis Ionawr i gefnogi Meryl fel Llysgenhades y Sir a'r Llysgennad a'u dirprwyon mewn Noson Rasys Ceffylau, a fu yn llwyddiant mawr iddyn nhw, ac i goffrau'r sir.

Bu aelodau'r clwb hefyd yn dysgu am bwysigrwydd cymorth cyntaf wrth i aelod o Ambiwylans St. John ddod i'n dysgu sut i drin sawl gwahanol argyfwng.

Fe aethon ni hefyd i ymweld â Hufen Iâ Mountain View, Llandeilo. Rhaid dweud, roedd yn noson ddiddorol dros ben ac er bod yr hufen ia yn oer, roedd y croeso yn gynnes iawn! Diolch i chi am roi o'ch amser.

Efallai bod rhai ohonoch wedi bod yn ddigon ffodus i fynd lawr i Neuadd San Pedr yn ystod wythnos hanner tymor a chael gwledd o berfformiadau lliwgar a swnllyd!

Er nad oedd cynhyrchiad pantomeim gan glwb Llanllwni eleni, cafodd y clwb gryn lwyddiant yn ystod yr wythnos. Ar y nos Fercher, mi roedd cystadleuaeth y ciwb yn cael ei beirniadu yn y neuadd ac mi ddaeth Betsan, Meryl, Nerys, Ffion ac Elin yn ail. Da iawn ferched! Yn ogystal, mi ddaeth Betsan yn fuddugol yng nghystadleuaeth ffasiwn a modelu'r Sir, wedi iddi wnïo a modelu ffrog. Llongyfarchiadau mawr i ti Betsan.

Ar y nos Wener, mi gyhoeddwyd pwy yw aelodau hŷn ac iau y Sir am y flwyddyn nesaf. Pleser oedd clywed bod cwpan yr aelod iau yn dod yn ôl i Lanllwni am y drydedd



Betsan, Meryl, Nerys, Ffion ac Elin CFFi Llanllwni a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth ciwb.

waith ag Owain yn cael ei enwi yn aelod iau Sir Gâr am y flwyddyn nesaf. Llongyfarchiadau i ti, Owain.

Yn ystod wythnos y pantos hefyd daeth Ffion Rees yn fuddugol yng nghystadleuaeth 'Cais am Swydd,' Llongyfarchiadau i ti Ffion.

Pob lwc i Ffion ac Owain yn y Grand, Abertawe, pan fyddant yn cynrychioli'r Sir ar lefel Cymru.

Cofiwch am ein Bingo sy'n cael ei gynnal yn Nhafarn Talardd nos Wener y 6ed o Fawrth, yn ddechrau am 8 o'r gloch. Welwn ni chi 'na!

Hefyd, pob lwc i Betsan, Mared, Sioned a Ifor a fydd yn cynrychioli'r Sir yn niwrnod cystadlaethau siarad cyhoeddus Cymru yn Llanelwedd ddiwedd y mis.

## Gwella

Gobeithio fod Erin Evans, Park Lane yn well ar ôl iddi fod yn yr ysbyty ac yn anhwylus yn ddiweddar.

## Cydymdeimlo

Yn ystod mis Chwefror fe gollodd Paul, Menna, Aled ac Elin Jones, Tŷ Newydd, Maesycrugiau dad a thad-cu annwyl, sef Mr Bob Jones, Derwen Fawr, Heol Llanwnnen, Llambod.

## Cylch Meithrin Llanllwni

Croeso cynnes i Cadi Thomas, Elliw a Cian Jones i'r Cylch. Gobeithio byddwch yn mwynhau eich amser gyda ni.

Yn ystod mis Chwefror gwnaeth y plantos bach ymweld â fferm Alltffyrddin yng

Nghaerfyrddin - gwnaethon nhw fwynhau yn fawr iawn wrth gweld yr anifeiliaid gwahanol.

Ein thema yr hanner tymor yma yw gwledydd gwahanol.

Mi fydd Bingo Pasg yn cael ei gynnal nos Lun, 13eg Ebrill yn Nhafarn Talardd

Llanllwni am 8yh. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael ar y noson a gwobrau ariannol.

Bydd elw'r noswaith yn mynd tuag at Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni.

Croeso cynnes i bawb

## Cylch Ti a Fi

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore dydd Gwener am 10 yb hyd 12 yp yn Ysgol Llanllwni.

Croeso i rieni, gofalwyr, mam-gus a thad-cus ddod gyda'u plant i gymryd rhan yn y gweithgareddau gwahanol a chael cyfle i gael sgwrs dros banded.



## Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

# ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS  
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed  
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



## Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:  
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,  
Cladinau Wal,  
yn ogystal â Gwelyau,  
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont  
LLANBEDR PONT STEFFAN  
Ffôn a Ffacs: 01570 423984  
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

- \* Blinder / diffyg egni
- \* Meigryn
- \* Irritable Bowel Syndrome
- \* Menstrual problems
- \* a mwy

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees  
01545 590164  
07929 559561

## Tim Jones



### Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog  
Llanbedr Pont Steffan  
☎ 01570 422644

## The Wash Tub

Heol y Gogledd  
(gyferbyn â'r gofologofn)  
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:  
smwddio, golchi, sychu  
a glanhau.  
Ac yn golchi *duvets*.



# Pencarreg

### Priodas Dda

Dydd Sant Ffolant unwyd mewn priodas yn Eglwys St Silin, Cribyn Megan a Shaun, Llwynycian. Pob dymuniad da i chi eich dau ar eich taith briodasol a iechyd da a blynyddoedd maith o hapusrwydd.

### Gwellhad Buan

Pob dymuniad da i Gruffydd John, Derlwyn sydd wedi bod yn yr ystyby yn derbyn llawdriniaeth ar ei galon.

### Profedigaeth

Yn dawel yng nghartref Maes Llewellyn, Castell Newydd Emlyn bu farw Mrs Maud Jones, Maesiasaf. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i merch Margaret a'i gŵr Brynmor, ei hwyres Mererid a'i phriod James, a'i gor-ŵyr Osian. Bu'r angladd yn Eglwys Sant Padrig, Pencarreg.

Danfônwn ein cydymdeimlad llwyrfa a dwysaf at y teulu i gyd yn eu profedigaeth lem.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Arwel Jones, Derlwyn ar ei ddyweddiad yn ddiweddar.

# Gwmsychpant

### Gor wyres fach newydd

Daeth newyddion da i Mrs Ella Davies, Waun pan ddaeth gor-wyres fach newydd i lonni ei bryd, sef Grug, merch fach i'w hŵyr Eric a'i wraig ym Mwllch-y-fadfa, Talgarreg.

### Llongyfarchiadau

Ymhyfydwn yn llwyddiant Rhys Davies, Tyngrug Isaf yn ennill yr actor gorau dan 16 oed yng nghystadlaethau Panto C.F.F.I. Ceredigion yn ystod hanner tymor ac i bawb arall o'r ardal a fu yn cystadlu gyda Chlybiau Llanwenog a Phontsian gan ddod â chlod mawr i'r fro.

Hefyd llongyfarchiadau i Meinir Davies, Caerwenog ar ddod yn 3ydd yng nghystadlaethau Aelod Iau C.F.F.I. Ceredigion 2015-2016. Da iawn ti.

# Silian

### Cydymdeimlo

Danfônwn ein cydymdeimlad llwyrfa at Rhythwyn a Gwyneth Evans, Maes yr adwy yn dilyn colli chwaer a chwaer yng nghyfraith, sef Mrs Maud Jones o Bencarreg yn ystod y mis.

### Rhifyn mis Ebrill

Yn y Siopau Ebrill 2il  
Erthyglau, Newyddion  
a Llundiau i law erbyn  
Mawrth 23ain

# Mis y PaPur Newydd

### Colofn Dylan Iorwerth

### Y map yn dod yn fyw

Plant sy'n adnabod eu milltir sgwâr orau. Neu, o leia', dyna oedd yn arfer bod yn wir.

Yn y dyddiau pan oeddech chi'n treulio pob gyda'r nos a dydd Sadwrn yn crwydro o le i le, heb gar na thad neu fam oedd yn ddigon gwirion i'ch hebrwng chi i 'weithgareddau', roeddech chi'n gwirioneddol ddod i wybod ble oedd ble.

Dyna sy'n anodd wedyn wrth symud i ardal newydd. Does gynnach chi ddim o'r map dwfn yna yn eich meddwl, sy'n dangos ble mae pob fferm a thyddyn a phwy sy'n byw ynddyn nhw. A does gynnach chi ddim o'r sylwebaeth ar y map hwnnw chwaith – sgwrsio teulu a ffrindiau a chymdogion am y lle a'i helynt.

Yn bwysicach fyth, wyddoch chi ddim pwy sy'n perthyn i bwy ac mi allech yn hawdd ddigio hanner pobol y plwy trwy ddweud rhywbeth chwithig am un. Ac mewn ardal amaethyddol, lle mae rhai teuluoedd wedi bod yn yr un cylch, fwy neu lai, ers cenedlaethau, mae hynny'n beryg bywyd.

Dw i wedi bod yn byw yn Llanwnnen bellach ers bron 28 mlynedd ond adnabyddiaeth dyn dwad sydd gen i o'r ardal. Dw i'n drysu rhwng pobol o hyd ac, er fy mod i'n gwybod yn iawn pwy dw i'n nabod, ddim wastad yn rhoi enw a wyneb at ei gilydd yn iawn.

Yn yr ystyr hwnnw, pan fydda i ac Ardi'r ci yn mynd am dro, cerdded ar hyd yr ardal yden ni, nid cerdded trwyddi. Arwynebol ydi'r atgofion sydd gen i am fannau gwahanol, nid y cof llawnach hwnnw sy'n cael ei drosglwyddo yn y gwynt.

A dyna pam fod cyfarfodydd Cynghrair Cymuned Llanwenog yn gymaint o bleser – er mai ym mhlwy Llanwnnen yr yden ni yn ôl y postmyn, dim ond lled gardd sy rhyngon ni ac Alltyblaca a'r plwy nesa'. A thydi llinellau ddim yn cyfri ar fapiau cymdeithasol.

Trwy'r cyfarfodydd dw i wedi dechrau dysgu mwy am lefydd fel Stryd Fawr Llanbed a phentrefi fel Gorsgoch ... mae yna ddwy sgwrs ryfeddol o ddiddorol wedi bod am y clwstwr hwnnw o dai a oedd yn arfer bod yn llawer prysurach na'i faint.

Ond mae mwy na hanes un pentre' yn y sgysiau hynny – maen nhw'n crynhoi hanes cefn gwlad ei hun, yn taflu goleuni i gorneli yr yden ni wedi eu hanghofio, am arferion a ffordd o fyw, am fasnach a mwynhau.

Ddiwedd Chwefror, roedd Mair Jones – Mair Argoed i bawb oedd yno – yn hel atgofion, trwy gyfrwng gwybodaeth a gafodd gan ei mam, Sadie Jones, a thap cyfoethog o ddau o'r trigolion lleol yn sgwrsio a'u hatgofion nhw'n mynd yn ôl bellach ymhell tros gan mlynedd.

Roedd gwrandao ar eu Cymraeg nhw yn ddigon ynddo'i hun – Cymraeg pobol gyffredin, pob dydd, ond mor naturiol â lli'r Grannell. Cymraeg â blas y mawn ynddi a'r geiriau a'r dywediadau'n codi o'r ffridd a'r gors.

Roedd yna sawl un yno'n dweud pa mor bwysig oedd cadw'r straeon yn fyw a'u trosglwyddo i'r genhedlaeth nesa'. Mi allai fod yr un mor bwysig i gyfleu i bobol ddwad – sydd wedi dod ymhellach na fi – beth ydi'r cyfoeth sydd yma ... y cyfoeth a gaiff ei golli os na fuddsoddan nhw ynddo fo hefyd.

Mi allai crynhoi'r atgofion fod yn brosiect i'r Gynghrair ei hun; mi fyddai plant yr ysgolion lleol yn cael modd i fyw, siŵr o fod, wrth wneud yr holi ... a chymryd bod y system addysg yn dal i adael lle i weithgareddau gwerth chweil felly.

O'm rhan i, mi fydda i'n trio troi i mewn i'r cyfarfodydd mor aml ag y galla i. Mae'r profiad yn debyg i un arall o brofiadau plentyndod ... agor un o'r llyfrau tri dimensiwn hynny lle'r oedd golygfa gyfan yn codi o blith y tudalennau.

Peth fel yna ydi gwrandao ar y sgysia. Mae pobol a phethau yn codi o'ch cwmpas chi wrth wrando, a'r map yn dod yn fyw.

## Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo cyflawn  
ar gyfer pob achlysur:

Hefyd yn Ystafell Weinï cysurus  
**Clwb Rygbi Llambed** yn gwneud:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

- Cinio Sul y Mamau 15/03/15
- 2 gwrs
- 12.00 - 3.00
- I archebu bwrdd ffoniwch y rhif isod

*Bwydlenni unigol i ateb eich  
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*



Lifft  
cyfleus  
yn ei le i  
fynd lan  
llofft

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:  
**Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.**



**Pantomeim C.Ff.I Sir Gaerfyrddin**

Cynhaliwyd cystadleuaeth Pantomeim Cymraeg a Saesneg C.Ff.I Sir Gâr yn Neuadd San Pedr yn ddiweddar. Bu tair noson o gystadlu brwd gyda dau Glwb yn cystadlu yn y Pantomeim Saesneg a chwe chlwb yn y Pantomeim Cymraeg.

Yn derbyn y cwpan yn yr adran Saesneg oedd C.Ff.I Llanynddyfri gyda'u perfformiad o 'Jack and the Great Magical Beanstalk', gyda C.Ff.I Llandeilo yn ail.

C.Ff.I Penybont ddaeth i'r brig yn yr adran Gymraeg â'u perfformiad o 'Lawr Dan y Môr', gyda C.Ff.I Dyffryn Cothi yn ail a C.Ff.I Capel Iwan yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr i'r Clybiau oll am berfformiadau gwych.

Fe aeth y gwobrau am yr unigolion gorau yn yr adran Gymraeg a Saesneg i'r canlynol: Perfformiwr gorau 18 oed neu'n iau Aled Davies & Iolo Roberts, C.Ff.I Llangadog; Perfformwraig orau 18 oed neu'n iau Sulwen Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi; Perfformiwr gorau 26 oed neu'n iau Eirwyn Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi; Perfformwraig orau 26 oed neu'n iau Swyn Davies, C.Ff.I Penybont. Cynhyrchydd gorau Dai Baker, C.Ff.I Penybont.

Fe fydd C.Ff.I Llanynddyfri a Phenybont yn cynrychioli Sir Gâr yn rownd derfynol y gystadleuaeth Pantomeim yn y Grand, Abertawe ar y 7fed a'r 8fed o fis Mawrth.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n beirniaid am yr wythnos sef Nia Thomas & Wendy Jones. Diolch hefyd i bawb fuodd yn cynorthwyo yn ystod yr wythnos a diolch arbennig i Siôn Page & James Williams a fu'n gweithio'n ddiwyd wrth y golau a'r sain. Diolch arbennig hefyd i Simon Martin sy'n helpu yn y cefn ac yng ngofal y cymorth cyntaf ers blynyddoedd.

Ni fyddai'r wythnos wedi bod yn bosib heb ein noddwyr sef: McDonald's, Cyngor Sir Gâr, J. Davies a'i Fab Pencader, Hefin Jones a Bwrdd yr Iaith Gymraeg am noddi'r wythnos ac Undeb Amaethwyr Cymru am noddi'r gwobrau.

Hefyd nos Wener 20fed o Chwefror cyhoeddwyd Aelod Iau

a Hŷn newydd C.Ff.I Sir Gâr am y flwyddyn nesaf.

Fe wnaeth ymgeiswyr yr Aelod Iau gyflwyno CV, Datganiad Personol a Chyflwyniad Pwynt Pŵer ac fe wnaeth ymgeiswyr yr Aelod Hŷn gwblhau ffurflen gais yn sôn am eu cyfnod fel aelod. Yn ogystal â hynny, roedd cyfweiliad i bob ymgeisydd o flaen panel o feirniaid.

Mathew Jones, Danrallt, Nantgaredig o Glwb Dyffryn Tywi wnaeth dderbyn yr anrhydedd o fod yn Aelod Hŷn C.Ff.I Sir Gâr am 2015/16. Mae Mathew wedi bod yn aelod gweithgar o'i Glwb am nifer o flynyddoedd ac wedi manteisio ar nifer o gyfleoedd y mae'r Mudiad wedi eu cynnig. Mae Mathew wedi cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau a chystadlaethau ac ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd ar ei Glwb. Ffermio gartref mae Mathew.

Owain Davies, Gwndwn o Glwb Llanllwni hawliodd deitl Aelod Iau y Sir am 2015/16. Mae Owain hefyd wedi bod yn aelod brwd ers sawl blwyddyn ac wedi cael llwyddiant mawr ym myd y Siarad Cyhoeddus, y Ddrama a'r Adloniant. Mae'n adroddwr digri o fri. Mae Owain yn ddisgybl ac yn ddirprwy brif fachgen yn Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan. Pob lwc i'r ddau ohonynt.

Thema'r Arddangosfa Giwb eleni oedd "Carreg Filltir y Teulu". Roedd angen i'r arddangosfeydd gynnwys 5 eitem grefft yn gysylltiedig â'r thema. Roedd rhyddid i'r clybiau ddehongli'r thema yn eu ffordd eu hun.

Daeth C.Ff.I Llandeilo'n fuddugol a C.Ff.I Llanllwni'n 2ail. Llongyfarchiadau i'r ddau Glwb.

**Swyddogion Newydd C.Ff.I. Ceredigion**

Wrth i Clonc fynd i'r wasg, daeth y newyddion am swyddogion newydd Ceredigion. Llongydarchiadau gwresog i'r canlynol: Brenhines - Enfys Hatcher Clwb Llanwenog; Ffermwr Ifanc - Dion Davies Clwb Pontsian; Morwynion - Lisa Mai Jones, Clwb Pontsian; Sioned Davies Clwb Llanwenog; Elin Calan Clwb Llangwryfon a Rhiannon Davies Clwb Caerwedros.



Y Bardd Aneurin Karadog yn barddoni a rapio yn Ysgol Llanwnnen.



Catrin Jones, Ysgol Llanwnnen a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth Cogurdd.

**Ysgol Gynradd Llanwnnen**

Bu Aneurin Karadog ar ymweliad â'r ysgol a chafodd dosbarth Mr Ebbsworth fodd i fyw yn barddoni a rapio gyda Bardd Plant Cymru. Fe gyfansoddodd y disgyblion farddoniaeth arbennig a braf oedd clywed Aneurin Karadog yn canmol eu hawydd, eu dychymyg a'u hiaith Gymraeg naturiol. Da iawn chi, blant!

Da iawn hefyd i chi a fu'n cymryd rhan yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd yn ddiweddar.

Bu PC Alun yn trafod diogelwch ar y we gyda disgyblion yr ysgol gan ddysgu negeseuon pwysig iawn am fod yn ddoeth ar y we.

Roedd yr ysgol yn lliwgar iawn wrth i bawb wisgo dillad coch, gwyn a gwyrdd ar gyfer codi arian i bwyllgor Urdd cylch Llambod.

Bu Rhydian o'r Urdd gyda ni yng nhlwb yr Urdd yn gwneud bathodynau a phawb yn mwynhau mas draw.

Bu Catrin, Steffan Holmes, Guto, Gruff a Lucy yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth CogUrdd, yn gwneud salad ffrwythau. Diolch yn fawr i Mrs Sian Jenkins, Tŷ Llwyd, am ddod i feirniadu. Bu pawb yn gweithio'n brysus a gofalus a daeth Catrin Jones yn fuddugol. Aeth Catrin ymlaen i'r rownd nesaf yn y cylch, gan wneud salad ffrwythau,

myffins iach a smwddi a gwneud ei gwaith yn arbennig.

Mae pawb wrthi'n paratoi ar gyfer nifer o eitemau yn Eisteddfod Gylch yr Urdd ar hyn o bryd. Bydd yr ysgol yn perfformio nifer o'r rhain yn noson Gawl a Chân y pentref, nos Wener 13eg Mawrth.

Llongyfarchiadau i Mrs Sioned Mills a Dafydd ar enedigaeth Elliw Mair, chwaer fach i Gwenno ac Osian. Mae pawb yn yr ysgol yn gyffrous iawn am y newyddion da.

**Pen-blwyddi arbennig**

Yn ystod y mis mae Glyn Hammond, Llain Delyn a Anthony Jones, 4 Bro Llan wedi dathlu pen-blwyddi arbennig iawn.

**Wyres fach**

Llongyfarchiadau i Clive a Liz Mills, Ffynnon-fair ar gael wyres fach newydd, Elliw Mari, merch fach i Dafydd a'i wraig Sioned yn Rhydowen.

**Llongyfarchiadau**

Llwyddodd wyres John a Flo Williams, Brynamllwg, sef Cadi Beaufort Jones o G.Ff.I. Lledrod ennill yr actores orau dan 16 oed yn nghystadleuaeth Panto y C.Ff.I. yn Theatr Felinfach yn ystod y mis. Da iawn ti, Cadi.

**Swdocw**

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw  
Cyfeiriad  
  
Cod post  
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET  
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc  
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

|   |   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|---|
|   |   |   | 5 |   | 8 |
|   |   | 8 | 1 | 4 |   |
| 4 |   |   | 9 | 8 | 5 |
| 1 |   |   |   | 7 | 8 |
|   | 2 |   |   |   | 1 |
| 9 |   | 4 | 2 |   | 3 |
| 2 |   |   | 3 | 6 | 7 |
|   |   |   | 5 | 1 | 9 |
| 6 |   |   | 2 |   |   |

**Atebion Swdocw mis Chwefror:**

Llongyfarchiadau i Betty Prytherch, Tyngrug, Llanllwni, a diolch i'r canlynol am gystadlu: Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder ac Avril Williams, Y Fedw, Cwmann.

|   |   |   |   |   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 3 | 9 | 6 | 4 | 2 | 5 | 7 | 1 |
| 5 | 4 | 2 | 1 | 7 | 8 | 6 | 3 | 9 |
| 7 | 1 | 6 | 5 | 3 | 9 | 8 | 2 | 4 |
| 3 | 2 | 4 | 9 | 1 | 6 | 7 | 8 | 5 |
| 6 | 5 | 1 | 2 | 8 | 7 | 9 | 4 | 3 |
| 9 | 8 | 7 | 3 | 5 | 4 | 1 | 6 | 2 |
| 2 | 6 | 3 | 7 | 9 | 5 | 4 | 1 | 8 |
| 4 | 7 | 5 | 8 | 2 | 1 | 3 | 9 | 6 |
| 1 | 9 | 8 | 4 | 6 | 3 | 2 | 5 | 7 |



# Cwrtnewydd

## Ysgol Cwrtnewydd

Thema y Cyfnod Sylfaen y tymor yma yw Ffermio ac felly fel rhan o'u gwaith fe wnaeth y dosbarth ymweld â fferm Tanrhos i ddysgu am y gwartheg godro, eu bwydo ac ati. Fe wnaeth y plant fwynhau yn fawr iawn a diolch yn fawr i Lyn ac Eileen Rees am eu croeso.

Ar ddiwedd yr hanner tymor buom yn dathlu diwrnod coch, gwyn a gwyrd y Urdd. Cafodd y plant y cyfle i wisgo dillad coch, gwyn a gwyrd a chael llun o Mr Urdd ar eu hwynebau ac fe wnaeth Mr Urdd ymweld â ni yn ystod y dydd.

Bu Nia Morgans yn cystadlu yn ail rownd y Cogurdd yn adran Technoleg Bwyd Ysgol Bro Pedr. Roedd yna dri ar hugain o gogyddion yno yn paratoi salad ffrwythau, myffins a smwddi. Llongyfarchiadau mawr i Nia am gipio'r wobr gyntaf. Bydd Nia yn cynrychioli Ceredigion yn y rownd nesaf. Pob lwc i ti Nia fach!

## Priodas Aur

Llongyfarchiadau i James ac Olga Thomas, Brynderw ar ddathlu eu Priodas Aur yn ystod mis Chwefror. Iechyd da i chwi eich dau am flynyddoedd lawer eto.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Evan a Margaret Jones, Cae Glas ar golli tad a thad-cu annwyl iawn, sef Bob Jones, o Lamed yn ystod y mis.

## Wyres fach

Llongyfarchiadau i Peter a Jean Griffiths, Fronddu ar gael wyres fach newydd, Nanw Melangell, merch fach i Carys a Kevin yn Aberaeron a chwaer fach newydd i Ela Mablen.

Trannoeth daeth wyres fach newydd i Lyn ac Eileen Rees, Tanrhos, sef Grug, merch fach i Eric a Carol ym Mwlchfyadfa a chwaer fach i Llŷr.

Gobeithio fod y merched bach i gyd yn dod ymlaen yn dda.

## Diolch

Dymuna Walter Harries, Clarence ddiolch i bawb am yr anrhegion, y cardiau a'r cyfarchion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

## Gwellhad

Gobeithio y bydd Anne Evenden, Gwalia yn gwella'n foddhaol yn dilyn ei llaw driniaeth yn Ysbyty Glangwili yn ystod yr wythnos ddiwethaf yma.



Disgyblion Ysgol Cwrtnewydd yn ymweld â fferm Tanrhos.



Nia Morgans yn cipio'r wobr gyntaf yn ail rownd Cogurdd.



## CYMDEITHIAU GWYLIAU 2015

Tywyswr a gyrrwr Cymraeg eu hiaith  
l'ch harwain a'ch helpu bob cam o'r daith.

**Mawrth 30 – Ebrill 2** – Caergaint, Llundain a De Ddwyrain Lloegr - £325

**Mai 15-17** – Llandudno, mordaith Ynys Seiriol a Gerddi Bodnant - £195

**Mehefin 18-21** – Peterborough, Cofeb Gwenllian a Burghley House - £235

**Gorffennaf 7-9** – Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, Caer a Lerpwl - £199

**Awst 5-7** – Eisteddfod Genedlaethol Cymru (aros yn Yr Amwythig) - £215

**Awst 16-20** – Limerick, Killarney, Cork, Dulyn a De Iwerddon - £375

**Medi 11-13** – Weymouth, Dorchester a Chastell Sherborne - £199

**Tachwedd 9-13** – Twrci a Thinsel yng Nghastell Boddelwyddan - £325

Am fanylion llawn, ffoniwch Dorian ar 01559 371821  
neu ewch i'n gwefan [www.cymdeithiau.co.uk](http://www.cymdeithiau.co.uk).





Disgyblion Ysgol Cwrtnewydd yn eu gwisgoedd traddodiadol.



Plant Cyfnod Allweddol 2 Ysgol Carreg Hirfaen yn dathlu Gŵyl Ddewi.



Pedwar o blant Meithrinfa Sêr Bach, Llanwenog yn dathlu.



Ar Ddydd Gŵyl Dewi yn Ysgol Cwrtnewydd cyflwynwyd Tarian Cymwynaswr y Flwyddyn eleni i Caitlin Gibbons a Lois Jones.



Disgyblion Ysgol Llanwnnen yn gwneud y pethau bychain.







Plant Blwyddyn 1 a 2  
Ysgol Bro Pedr yn dathlu  
Gŵyl Ddewi.



Disgyblion Ysgol Llanwenog  
a baner y Ddraig Goch.

Plant  
Dosbarth  
Derbyn Ysgol  
Bro Pedr yn  
dathlu Gŵyl  
Ddewi.



Disgyblion Cyfnod  
Allweddol 1 Ysgol Carreg  
Hirfaen ar ddiwrnod  
Eisteddfod yr Ysgol.





## Cefn Hafo Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener  
£6 y pen

Croeso cynnes i bawb!

**W.D. Lewis**  
*a'l Fab*

Mazdaethwyr Amaethyddol  
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill  
Llanbedr Pont Steffan  
Ceredigion SA48 7AG  
Tel: 01570 422540  
Fax: 01570 423644  
www.wdlewiss.co.uk

Hefyd yn  
Broneb Stores  
Pumsaint, Llanwrda  
Tel: 01558 650215



## Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer  
pob achlysur'*

\* Cacenau pen-blwydd gyda llun  
(ffotograff)

\* Bwffe mawr neu fach

\* Danteithion i de

\* Pwdinau

\* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau  
Fach, Cwrtnewydd,  
01570 434 243  
07815 962 045

## Alec Page Gof



Gwaith metal o safon  
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,  
Llambled.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

## WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.  
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob  
gwasanaeth cyfreithiol.  
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,  
Llambled**

01570 422206 01570 423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,  
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

## Cwmann

### Côr Meibion Cwmann a'r Cylch

Nos Fercher Ionawr 28,  
cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y  
côr, gyda'r llywydd Alun Williams  
yn y gadair.

Soniodd Cyril Davies, cadeirydd  
y côr, am y tristwch o golli dau  
aelod yn ystod 2014. Roedd Arthur  
Roderick yn un o sylfaenwyr y côr  
a chadeirydd am 30 mlynedd a bu  
Ifor Rees hefyd yn aelod ffyddlon  
dros gyfnod hir. Ar ochr fwy hapus  
cyfeiriodd at nifer o achlysuron  
llwyddianus i ddathlu hanner can  
mlwyddiant y côr, yn cynnwys  
lansio'r llyfr hanes 'Cofio'r Hanner  
Canrif' gydag Arthur yn olygydd ac  
Alun yn ei gynorthwyo. Roedd Cyril  
yn hapus bod y flwyddyn wedi bod  
yn gofiadwy, gyda chefnogaeth ei  
gyd-swyddogion, y ddwy Elonwy  
a'r aelodau yn amrhisiadwy.

Diolchodd am y fraint o fod yn  
gadeirydd dros y ddwy flynedd  
diwethaf.

Yn dilyn y cadeirydd cafwyd  
geiriau o ddiolch gan Ken, yr is-  
gadeirydd, Elonwy, yr arweinyddes  
a Rob, yr ysgrifennydd. Cyflwynodd  
Dewi, y trysorydd, fantolen ariannol  
yn dangos sefyllfa iachus.

Etholwyd y prif swyddogion  
newydd, sef Ken Lewis yn  
gadeirydd, Haydn Richards yn  
is-gadeirydd, Alun Jones yn  
ysgrifennydd a Keri Davies yn  
drysorydd.

Yn y cyfarfod cyffredinol a  
ddilynodd penderfynwyd cadw tâl  
am wasanaeth y côr fel y llynedd.  
Gall unrhyw un sydd eisiau cyngerdd  
gysylltu ag Alun ar 01570 423231. I  
orffen, dywedodd Ken y bydd rhaid  
paratoi am y dyfodol wedi ymweliad  
y côr â'r Albert Hall ym mis Mai.  
Daeth y noson i ben gyda bwffe wedi  
ei baratoi gan Elfan a the gan Alun.

### Ysgol Carreg Hirfaen

Fel rhan o'n gwaith ar y thema  
'Sw bach' aeth Blwyddyn 1 a  
2 ar daith i 'Pets at Home' yng  
Nghaerfyrddin. Roedd pawb yn  
gyffrous iawn wrth drin rhai o'r  
anifeiliaid bach ac fe ddysgom nifer  
o ffeithiau diddorol amdanynt.

Cawsom brynhawn llwyddiannus  
iawn yn ddiweddar gan ennill rownd  
derfynol cystadleuaeth pêl rwyd y  
cylch. Aeth y tîm ymlaen i gystadlu  
ar lefel sirol gan ennill tair gêm a  
cholli dwy.

Fel rhan o'n gwaith ar y thema  
'999 Argyfwng' aeth Blwyddyn 3 a  
4 i ymweld â'r Frigâd Dân a'r Orsaf  
Ambiwylans. Cafodd y plant y cyfle  
i ddysgu am eu gwaith. Diolch yn  
fawr iawn i Lyndon, Robert, Tim  
a Terry am ein tywys o gwmpas.  
Cawsom ymweliad arbennig gan  
Kevin Hughes a Celt y ci. Cafodd y  
plant y cyfle i ddysgu am waith ci  
arogli a gweld sut oedd Celt a Kevin  
yn gweithio gyda'i gilydd i achub  
pobl. Hoffwn ddiolch i Kevin a Celt



Cyflwyno sic o £400 i Adran Oncoleg Ysbyty Glangwili sef elw cyngerdd  
Nadolig Eglwys Sant Iago Cwmann. O'r dde Danny Davies a Graham Evans  
(wardeniaid), Rosa Lloyd (ysgrifenyddes) yr Hybarch William Strange a  
Claire Rumble (Swyddog Codi Arian).

am fore hyfryd.

Ddechrau'r mis, mwynhaodd  
disgyblion Cyfnod Allweddol 2  
dridiau yng Ngwersyll yr Urdd  
Caerdydd. Un o'r uchafbwyntiau  
oedd y daith o gwmpas Stadiwm y  
Mileniwm a'r profiad o gerdded mas  
trwy'r twnnel! Profodd y sglefrïo iâ  
yn dipyn o sialens i rai (yn enwedig  
y staff!) Gyda'r nos, buodd y plant  
yn bowlïo ac yn y sinema. Cafodd  
pawb amser arbennig.

Buodd PC Alun yn ymweld â'r  
disgyblion unwaith eto i drafod  
amrywiaeth o bynciau gan gynnwys  
ymddygiad gwrth-gymdeithasol  
gyda bl. 5 a 6.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mrs  
Maureen Evans, Bronallt a fu farw  
yn ystod mis Chwefror.

Trist oedd y newyddion am  
farwolaeth Edwin Harries, 8 Nantglyn.  
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf  
â Delme, Joyce, Muriel, Brenda a'u  
teuluoedd a'r holl gysylltiadau teuluol  
estynedig.

Yn ystod y mis collodd Stan a  
Vivienne Evans, Coed y Waun frawd  
yng nghyfraith, David Lloyd Evans  
a oedd yn byw ym Mryn-gwyn, ger  
Castell Newydd Emlyn. Derbyniwch  
ein cydymdeimlad dwysaf â chi fel  
teulu.

Cydymdeimlwn â theulu  
Bryneiddig wedi marwolaeth  
Eirwyn Jones, (Glaneiddig gynt)  
yn ddiweddar. Bu Eirwyn yn Saer  
Coed adnabyddus a threfnydd  
angladdau yn y pentref dros y  
blynyddoedd ond treuliodd ei  
flynyddoedd olaf yng nghartref  
Cwm Aur, Llanybydder.

### Cymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parcyrhos

Ein gwystai yng nghyfarfod cyntaf  
y flwyddyn oedd Delyth Morgans  
Phillips. Gyda'r festri bron yn llawn,  
cawsom noson ddifyr yn gwrando  
arni yn ein tywys o amgylch  
Sir Aberteifi, ac yn sôn am ein

hemynwyr a'r hemynau.

Yn ystod mis Chwefror, cawsom  
ein cinio blynyddol yng ngwesty  
Llain y Castell. Ein gŵr gwadd y  
tro yma oedd Deiniol Williams,  
Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Bro  
Pedr. Bu'n sôn wrthym, ac yn  
dangos lluniau o'i ymweliad ag  
Ysgol Uwch St James yn Lesotho.  
Mae'r ysgol yma wedi ei chysylltu  
ag Ysgol Bro Pedr, ac yr oedd  
Deiniol yno i sefydlu Cyngor Ysgol  
ymhlith y plant. Cafodd amryw o  
brofiadau bythgofiadwy tra bu yno,  
a gwnaeth fwynhau'r profiad yn  
fawr iawn.

Diolchwyd i Deiniol ac i'r gwesty  
gan Mrs Glesni Thomas.

Bydd cyfarfod olaf y tymor nôl yn  
y festri ar 16eg o Fawrth.

### Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i'r  
canlynol: Arthur Jenkins, Heol  
Hathren; Gwenda Thomas, Tegfan;  
Cerdin Price a phawb arall sydd  
wedi bod yn anhwylyd dros y mis  
diwethaf.

### Sefydliad y Merched Coedmor

Daeth Gwynfor Lewis ac Ifor  
Williams atom i'n cyfarfod mis  
Chwefror i sôn am eu taith feicio  
nodedig o Lundain i Baris yn ystod  
mis Medi 2014. Codi arian oeddent  
at Gronfa 'Pabi y Lleng Brydeinig'  
ac mae bron i £8,000 wedi cyrraedd  
y coffrau erbyn hyn.

Diolchwyd iddynt am noson  
ddifyr a hwyliog gan Tegwen  
Williams.

Mewn cyfarfod byr i ddilyn  
llongyfarchwyd y Llywydd, Noleen,  
a Helena ar ddathlu pen-blwyddi  
arbennig a Bethan ar ddod yn fam-  
gu am yr ail dro.

Gwnaed trefniadau ar gyfer  
Cyfarfod Rhanbarth i'w gynnal  
yma ar Fawrth 20fed ac ar gyfer  
y cyfarfod nesaf, sef Cawl Gŵyl  
Ddewi yng Nghaffi Mark Lane,  
Llambled. Brenda a Tegwen oedd  
yng ngofal y te.



# Llanbedr Pont Steffan

## Adran Llanbed

Daeth cryn lwyddiant i dîm Adran Llanbed yng nghystadleuaeth Cwis yr Urdd. Llwyddodd Sioned, Nia Beca, Sam a Zoe i gipio'r wobwr gyntaf. Mae'n amlwg bod plant clyfar iawn gyda ni yn yr Adran. Diolch i Miss N Davies, Mrs A Jones a'r rhieni am eu cefnogaeth. Yn ddiweddar yn yr Adran mwynhawyd noson o chwarae gemau bwrdd a defnyddio'r iPads a chafwyd hwyl a sbri yn chwarae bingo. Yn ein cyfarfodydd cyn y Pasg byddwn yn bwrw ati i goginio ac i wneud gweithgareddau Celf.

## Hanes Llambled

Nos Fawrth, 17eg o Chwefror, rhoddwyd darlith arbennig o ddiddorol gan Mr Rhys Bebb Jones, Pennaeth Uned Cynnal Casgliadau a Storffeydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Agorwyd y ddarlith wrth iddo egluro pam bod Aberystwyth wedi ei ddewis yn lleoliad i'r llyfrgell yn hytrach na Chaerdydd. Roedd llawer o eitemau materol Cymreig i'w cael yn barod yn y Brifysgol ac ychwanegwyd atynt gan gasgliad Syr John Williams (meddyg y Frenhines Fictoria) a oedd yn gasglwr brwd o hen lawysgrifau.

Erbyn 1905 roedd y llywodraeth wedi cytuno cyllid at yr achos ac erbyn 1916 roedd yr adeilad yn barod. Ehangwyd yr adeilad yn 1965 ac eto yn 1996.

Bu tân erchyll ar 26ain Ebrill, 2013 gan ddinistrio rhan o'r to. Dangoswyd lluniau o'r drychineb a'r ffordd yr aed ati i drin ac achub y casgliadau. Gyda dros 4,000 o eitemau newydd yn cael eu hychwanegu at y casgliadau bob mis, bydd gwaith cynnal a chadw yn mynd ymlaen am hir.

Diolchwyd i Mr Bebb Jones am ein diddori ac am agor ein llygaid am yr hyn sy'n digwydd yn un o'n sefydliadau mwyaf pwysig.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Mawrth 17eg, am 7.30 yn Hen Neuadd y Brifysgol pan fydd Mr. Medwyn Parry yn siarad am y 'Pentrefi heb golled' sef yr ardaloedd y bu i'w bechgyn ddychwelyd iddynt wedi brwydrau'r Rhyfel Mawr. Croeso cynnes i bawb

## Amgueddfa Llambled

Mae'r Amgueddfa wedi ail-agor erbyn hyn ac mae arddangosfeydd newydd i'r cyhoedd ddod i'w gweld. Gellir gweld creiriau sy'n perthyn i'r hen ddiwydiant menyn a chaws a byd amaeth. Cofnodir hanner can mlynedd ers cau'r rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin a gwelir bod y stesion yn golygu llawer i drigolion Llambled ar un adeg. Nodir y flwyddyn 1915 hefyd a'i gysylltiadau lleol â'r Rhyfel Mawr.

Oriau agor: Dydd Mawrth, Iau a Sadwrn, 10yb hyd 4yp.

## Dartiau

Cyflwynwyd siec am £1,000 yn ystod mis Chwefror i Diabetes UK Cymru, cyfanswm yr arian a godwyd adeg Noson Arddangos Dartiau yng nghwmni Richie Burnett a Barrie Bates ym mis Rhagfyr.

Cynhelir noson ddartiau eto nos Sadwrn, Mawrth 28ain yn y Neuadd Fictoria; timau yn cynrychioli Cymru a Lloegr fydd yn cystadlu. Gweler Dyddiadur Clonc am fanylion pellach.

## Shiloh a Soar

Mrs Aerwen Griffiths oedd y gwestai yn y Gymdeithas Ddiwylliadol brynhawn Iau Chwefror Sed. Estynnodd y Llywydd, Huw Jenkins, groeso cynnes iawn iddi fel cyn ddisgybl Coleg Celf a Cherddoriaeth Lerpwl. Ar ôl dysgu yn Ysgol Dihewyd, symudodd i fywyd mwy prysur yn Leamington Spa fel athrawes gelf. Cyfarfu â'i phriod Dan mewn gwasanaeth yn yr Eglwys Gadeiriol yn Coventry.

Heb os, mae Aerwen yn arbenigwraig ym maes arlunio ac mi gafwyd orig hynod ddiddorol a lliwgar yn ei chwmni Gwelwyd enghreifftiau gwyh o waith wedi ei gomisiynu, yn enwedig yn ardal Llanddewibrefi, gan gynnwys Ochr y Garth, Bayllau Cellan, Pentre Llanfair a Chwmann. Gwelwyd hefyd lun hyfryd o Sŵn y Gân, sef anrheg priodas ar gais Côr Meibion Cwmann i Kees ac Elonwy Huysmans.

Gwelwyd hefyd nifer o enghreifftiau o dirluniau lleol a sawl esiampl o ysgythr (etching) a chaligraffeg a'r cyfan yn adlewyrchiad o allu a dawn arbennig Aerwen. Gwyddom hefyd am ei diddordeb mewn barddoni a chynganeddu a hyfryd oedd clywed cerdd o'i gwaith yn deyrnged i'r arlunydd Ogwyn Davies.

Percy Evans a gafodd y fraint o ddiolch i Aerwen am brynhawn a erys yn hir yn y cof a phawb ohonom wedi rhyfeddu at gyfoeth ei gallu a'i doniau.

Andrew Felindre oedd y siaradwr olaf cyn noson Gŵyl Ddewi a hynny nos Iau Chwefror 19 yn y Ffestri a'i destun oedd Llanbed o Adref. Ceir adroddiad yn y rhifyn nesaf.

## Cylch Cinio

Wrth agor cyfarfod diweddaraf Cylch Cinio Llanbed yng Ngwesty'r Grannell ar nos Iau Chwefror Sed, estynnodd y Llywydd y Parch John Emrys Jones ein cydymdeimlad dwys i'n cyd aelod, sef Rhys Bebb Jones ar ôl iddo golli ei frawd Aled yn ddiweddar. Dymunodd yn dda hefyd i'r Parch Goronwy Evans ar ôl iddo roi gwasanaeth clodwiw fel gweinidog gyda'r Undodiaid cyn ymddeol yn ddiweddar.

Yn anffodus, ni fedrai ein siaradwr gwadd Ioan Wyn Evans fod yn bresennol oherwydd galwadau



Gŵyl Gwrw Llanbed a drefnwyd gan aelodau'r Ford Gron. Bob Phillips, y trefnydd (ar y dde) gyda chyd-aelodau yn barod i dynnu peintiau o blith y 12 math a oedd ar gael.

gwaith a bywoliaeth. Diolch iddo am addo dod i'n plith y tymor nesaf.

Trwy ddyfal barhad, llwyddodd Twynog Davies ein ysgrifennydd siaradwyr, i sicrhau presenoldeb person llwyr addas i lanw'r bwlch, sef y foneddiges Yvonne Davies, Afallon, Drefach. Buan y sylweddolwyd ei haeddiant a'r parch sydd iddi yn yr ardal.

O'r cychwyn cyntaf, clywsom rywun oedd yn gwbl gartrefol yn ein cwmni. Wrth glywed ymateb llawer yn y gynulleidfa 'roedd yn amlwg ei bod wedi taro tant atgof yn ein plith tra'n goglais cywreirwydd y gweddill. Ei thestun oedd. Hanes Traddodiad a Datblygiad Tref Llanbed. Gwnaeth hynny'n gelfydd iawn drwy gyfrwng llais a llun. Fe'n synnwyd gan ei diddordeb diffuant a'i brwdfrydedd amlwg yn ei phwnc. Llwyddodd i agor llygaid llawer ohonom i gyfoeth ac amrywiaeth ein tref. Mawr ddiolch iddi am araith ddiddorol ac addysgiadol.

Diolch iddi hefyd am dynnu ein sylw at Amgueddfa Llanbed a fydd yn ail agor cyn hir yn Stryd y Coleg. Gwerthfawrogi cyfraniadau o bob math i gefnogi a chynnal y fenter werthfawr yma.

Do, fe fwynhawyd ymborth i'r corff a'r meddwl yn ystod y noswaith ddymunol hon. Diolch i'n siaradwr a Gwesty'r Grannell am hynny.

Bydd y Cylch Cinio yn dathlu Gŵyl ein Nawddsant yn y Grannell, nos Iau Mawrth Sed yng nghwmni Côr Merched Corisma. Croeso cynnes i unrhyw un sydd â chysylltiad â ni nawr neu yn y gorffennol i ymuno yn y dathlu. Ceir rhagor o wybodaeth gan ein ysgrifennydd, y Bnr Tim Jones Llainwen, rhif ffôn 422644.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Mary Jones, Derwen Fawr, Heol Llanwnnen ar golli ei gŵr, Bob yn ystod y mis.

## Merched y Wawr

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod

mis Chwefror gan y Llywydd Mary Davies. Dywedodd mai da oedd gweld Avril yn ôl yn ein plith ar ôl ei hanffawd a llongyfarchodd Gillian ac Emyr ar ddathlu eu Priodas Ruddem. Hefyd dymunodd wellhad i Gwenda Thomas sydd yn yr ysbty ar hyn o bryd.

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Mary Huws, Comisiynydd y Gymraeg, yn sôn am arolwg am wasanaeth y banciau ac am unrhyw drafferthion o safbwynt cael gwasanaeth yn y Gymraeg. Cafwyd gwybodaeth gan gwmni teledu Cwmni Da yn sôn am gynnal Nosweithiau Llawen yn Llanbed ym mis Mai.

Derbyniwyd rhai cyfraniadau tuag at ategolion y galon ond gofynnodd Mary am ragor maes o law.

Derbyniwyd cerdyn o ddiolch oddi wrth aelodau Cangen Llanybydder yn diolch am y noson hyfryd a dreuliodd yn ein plith y mis diwethaf.

Yna, aeth Mary ymlaen i groesawu a chyflwyno Marye Wycliff a'i phartner, Rajesh, gan ddweud bod y ddau wedi dysgu Cymraeg a bod Marye erbyn hyn yn medru sgwrsio ac ysgrifennu yn Gymraeg. Cawsom ganddi wers Yoga ac ymarferion i helpu Esgym am Oes. Dywedodd bod eisteddiad a cherddeddiad cywir yn bwysig iawn. Roedd pawb wedi mwynhau gwneud yr ymarferion ac yn credu eu bod yn llesol iawn. Diolchwyd iddynt gan Dilwen Roderick am noson hwylus iawn a llongyfarchodd y ddau am ddysgu Cymraeg mor arbennig o dda gan ddweud eu bod yn esiampl dda i gymaint o bobol yr ardal.

Enillwyd y raffl oedd Aerwen Griffiths a Gwynfil Griffiths a pharatowyd y te gan Irene, Pat, Eryl a Verina. Edrychwn ymlaen at ddathlu Gŵyl Ddewi y mis nesaf yng nghwmni aelodau Merched y Wawr Felinfach.

## Diolch

Dymuna Eryl Jones, Gerlan ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a



# Llanbedr Pont Steffan

dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Hefyd diolch diffuant am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ei mam, Annie Thomas, Nantsebon (nawr yng nghartref gofal Carlton House, Llanon) ar ddathlu ei phen-blwydd hithau yn 95 oed yn ddiweddar. Gwerthfawrogwyd pob cysylltiad yn fawr iawn.

## Y Cymdeithas Gerdd

Cynhelir cyngerdd gan Ruth Montgomery, a'i thad Roger, yn Hen Neuadd y Brifysgol, ddydd Sul 22ain Mawrth am 2.30 y.p. Byddant yn canu'r fflwt a'r gitâr. Ers ei genedigaeith mae Ruth wedi bod yn fyddar iawn ond er gwaetha popeth mae wedi datblygu yn gerddor dawnus iawn. Enillodd ei gradd yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd, gan ganolbwyntio ar ganu'r fflwt. Mae Ruth yn awr yn athrawes peripatetig yn Essex ond yn dal i berfformio gyda'i thad ar hyd a lled y byd. Maent wedi chwarae gyda'r Royal Philharmonic Orchestra yn Moscow, St. Petersburg a Llundain. Dewch i wrando a mwynhau.

## Dyfodol cartrefi preswyl y Sir.

Manteisiwch ar y cyfle i roi sylwadau ar y cynigion gan fod y sir yn awyddus i glywed eich barn er mwyn ystyried unrhyw bryderon neu awgrymiadau sydd gennych. Mae cartref preswyl Hafan Deg, Llanbedr Pont Steffan yn rhan o'r ymgynghoriad.

Mae gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar gael drwy gysylltu â 01545 574000 neu ar-lein wrth ymweld â'r dudalen Ymgynghoriadau ar [www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk) Mae'r cyfnod ymgynghori wedi ei ymestyn hyd 30 Ebrill 2015.

## Pymtheg Mlynedd CYD Llanbed

Dros Gymru gyfan mae grwpiau sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr Cymraeg gwrdd a chymdeithasu dros baned gyda Chymry Cymraeg, weithiau bob wythnos ac weithiau bob mis. Breuddwyd oedd hon gan yr Athro Bobi Jones a'i briod Beti o Aberystwyth nôl yn y saithdegau. Sefydlwyd y grŵp yn yr Home Cafe yn Aberystwyth sy'n cwrdd bob dydd Iau ers hynny heb saib.

Sefydlwyd ein grŵp ni yn Llanbedr ym mis Chwefror 2000 dan ddyllanwad Bobi a Beti ac arweiniwyd y grŵp am y flwyddyn gyntaf gan Phil Brake yn yr hen Adeiladau Texaco ar dir y Brifysgol a chafwyd cefnogaeth frwd gan Goronwy Phillips a'i ffrindiau.

Symudodd y grŵp y flwyddyn ddilynol i ganol y dref i'r unig le addas ar y pryd, sef Gwesty'r Llew Du lle'r ydyn ni'n cwrdd o hyd. Pymtheg mlynedd lawr y lôn a rydyn ni'n dal i gwrdd bob bore Mawrth o 11 y.b i 12 o'r gloch

- grŵp bach sy'n mwynhau sgwrsio gyda chymorth gwerthfawr Lynne a Janet am bob peth dan haul, boed yn farddoniaeth neu'n bwdin Dolig.

Hoffen ni feddwl mai pontydd yw'n grwpiau ni sy'n arwain o dir y dosbarth dysgu Cymraeg i dir y Cymry go iawn gan gymryd y cam cyntaf tuag at fagu hyder wrth siarad Cymraeg.

Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni bob bore Mawrth.

## Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod yr wythnosau diwethaf.

## Noddfa

Ar Sul y Mamau sef 15 Mawrth cynhelir oedfa arbennig yn Noddfa am 5 o'r gloch yng ngofal y plant a'r bobl ifanc. Croeso cynnes iawn i bawb.

## Aelwyd yr Urdd

Daeth criw o'r aelodau ynghyd i gyfarfod agoriadol y flwyddyn yn Ysgol Bro Pedr. Cafwyd llawer o hwyl yn cymryd rhan mewn cystadlaethau a gêmiau amrywiol yng ngofal Geinor Medi a Janet. Hefyd trefnwyd rhaglen ar gyfer yr wythnosau nesaf yn cynnwys noson amrywiol yng ngofal Wyn a Geraint a noson Ffilm a Popcorn. Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd yr aelodau wedi mwynhau orig yng nghwmni Rhydian, Swyddog Cynorthwyol yr Urdd yng Ngheredigion. Hefyd mae'r aelodau wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod. Pob lwc i bawb fydd yn cystadlu.

## Shiloh a Soar

Daeth tyrfa luosog iawn ynghyd i'r Festri yn Shiloh ar gyfer cyfarfod olaf y Gymdeithas Ddiwylliadol. Estynnwyd croeso cynnes i'n siaradwr gwadd Andrew Felindre gan Lywydd y nos, Philip Lodwig. Testun araith Andrew oedd "Llanbed o Adref" - y cyfan yn seiliedig ar olrhain hanes Llanbed a'r Fro yn y gorffennol ac wedi ei gyflwyno yn gelfydd iawn drwy gyfrwng sleidiau.

Gwelwyd nifer o luniau hanesyddol yn yr ardal gan gynnwys Garej Cwmann, Tafarn Jem, Y Workhouse, Mountain Cottage Esgairdawe a'r Hen Efail. Diddorol oedd gweld yr hen Felindre Uchaf neu Velindre fel y sillafwyd enw'r cartref yn wreiddiol cyn i'r ffermdy newydd gael ei adeiladu.

Roedd gweld llun o'r dorf yn y Mart Nadolig yn rhyfeddod a thrist yw cofnodi bod y bwrllwm a'r diddordeb a grëwyd gan yr achlysur arbennig yma bellach yn atgof. Yr unig gysur efallai yw bod safon yr anifeiliaid dipyn gwell erbyn heddiw!

Roedd yna ddiddordeb mawr hefyd, yn enwedig ymysg trigolion Llanbed, wrth weld

lluniau o gymeriadau fel Jack Oliver, Dan Williams, George Davies y Milfeddyg a R.G Daniel yr Arwerthwr. Mae'r lluniau a dynnwyd gan y teulu a'r ffrindiau bellach yn drysor ac yn sail i ddarlith hynod ddiddorol ac addysgiadol gan ein siaradwr. Cyflwynodd Andrew yr holl wybodaeth, yn cynnwys dyddiadau a ffeithiau'r gorffennol, heb nodiadau. Rhys Bebb Jones a gafodd y fraint o ddiolch yn ddeheuig ac yn gynnes iawn i Andrew am noson arall yn rhymor y Gymdeithas a erys yn hir yn y cof.

Daw gweithgareddau'r Gymdeithas i ben ar Fawrth 13eg yn y noson Gawl Gŵyl Ddewi arferol a'r gwystai eleni yw Lyn Ebenezer. Ceir manylion pellach yn nes at y dyddiad.

## Sinema Magic Lamp

Cyhoeddwyd rhaglen helaeth o ffilmiau i'w dangos yn Sinema'r Magic Lamp yn Neuadd Fictoria yn ystod mis Mawrth gyda dangosiadau ar nosweithiau Mercher, Sadwrn ac ambell i nos Sul. Ceir mynediad drwy rodd. Gellir cael mwy o fanylion drwy ffonio 493649 neu wefan [www.lampeter21.co.uk/magic-lamp-cinema](http://www.lampeter21.co.uk/magic-lamp-cinema)

## Sefydliad Prydeinig y Galon

Cafwyd noson arbennig ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant ar nos Wener 20 Chwefror 2015.

Llywydd y noson oedd y Cyngorwr Kista Ramaya a siaradodd yn bwrpasol iawn am ba mor angenrheidiol yw gweithio tuag at yr elusen bwysig hon. Rhoddodd rodd arbennig i'r elusen. Diolch iddo fe. Yr artistiaid oedd Clive Edwards, Cwmeils a Chôr Corisma. MC y noson oedd ein Cadeirydd Dave Smith a thalwyd y diolchiadau gan John Harries Jones ein Llywydd.

Enillwyr y raffl oedd: Alan Leech, Ted Carter, Ifor Watkins, Ceri Davies, Rhian Jones, Elfan a Dorothy James, Miriam Plantinga, Caio Williams, Bessie Lloyd, Betty Davies.

## Urdd y Benywod, Brondeifi

Ar yr 12fed Chwefror roedd yr Urdd yn ffodus iawn i ddal Geraint Lloyd ar ei ffordd i'r stiwdio i gyflwyno ei sioe boblogaidd ar Radio Cymru. Mae'r rhaglen yn cael ei darlledu o 10 tan 12 pob nos yn ystod yr wythnos.

Bachgen o fferm ger Lledrod yw Geraint. Treuliodd ei ieuenctid gyda chast o gymeriadau'r fro, un ohonyn nhw, Richard James Llanilar, a gafodd waith i Geraint yn y Co-op yn Aberystwyth. Ond oedd Geraint yn mwynhau radio a thrwsio ceir, ac ar ôl gweithio i Coombs Industries fe ddechreuodd fusnes ceir ei hun. Roedd hefyd yn aelod brwdfrydig o'r Clwb Ffermwyr Ifanc a dyna le cafodd ei addysg mewn sgiliau byd y cyfryngau. Cafodd sbort ar y



Adran Llanbed yn ennill y cwis sirol i adrannau. Da iawn chi, Sioned, Nia Beca, Zoe a Sam.

llwyfan mewn sawl pantomeim, ond dywedodd mai'r sbri fwyaf oedd yn chwarae jôcs gyda'r cast a dysgu am y peiriannau a'r goleuadau y tu ôl i'r llwyfan. Yn y Clwb cafodd gyfle i actio, i gyflwyno, ac i gynhyrchu drama'u a siarad yn gyhoeddus. Ar yr un adeg o'r Wythdegau roedd radio lleol yn dechrau. Cymerodd Radio Ceredigion fantais ar sgiliau technegol Geraint a'i allu i sgwrsio gyda phawb a chafodd swydd yno.

Mae Geraint yn storïwr talentog iawn. Roedd y cymeriadau a'r achlysuron yn dod yn fyw a'r hanesion yn llifo i'n diddanu.

Clywsom am fyd y cyfryngau hefyd. Prentisiaeth dda oedd gweithio i Radio Ceredigion gan nad oedd yna arbenigrwydd ar y pryd a phawb yn mynd ati i greu rhaglenni. Byd hollol wahanol oedd yn bodoli ar ôl iddo ymuno a'r BBC. Roedd rhaid gweithio gyda chynhyrchydd a sgript ac adran reolau. Ond fel y gŵyr pawb, mae Geraint wedi llwyddo yn y BBC heb golli ei allu i gysylltu â phob math o bobl.

Mae'r dechnoleg wedi newid yn gyfan gwbl, yn y stiwdio a thu allan. Fe fyddai eitem fel "Y Kiosk" (pan oedd Geraint yn rhoi galwad i un o'r bocsys ffôn coch) ddim yn bosib nawr yn oes y ffôn symudol. Trwy ddefnyddio'r We mae'n bosib creu rhaglen gyda'r stiwdio ym Mangor o Aberystwyth a chysylltu gyda'r tîm yng Nghaerdydd ar yr un pryd.

Fel cynhyrchydd mae Geraint yn trefnu rhaglenni gyda Dai Llanilar a sêr eraill Cymreig. Eto gyd, pan oedd y BBC eisiau codi ffigurau gwrandawyr yn yr hwyr, Geraint gafodd y dasg ac mae wedi llwyddo. Pleser mawr roedd gwrandao a sgwrsio wyneb yn wyneb â Geraint (a cheisio ateb posau!). Mae mor gartrefol yn siarad gydag aelodau'r Urdd ac ydi o siarad gyda Bois y Loris.

Eryl Jones gafodd y fraint o roi diolch i Geraint Lloyd am gyfarfod hwylus.

Mae croeso i bawb ddod i'r cyfarfod nesaf ar Fawrth y 12fed pan fydd Y Faeres Elsi Dafis gyda ni.





## Syniadau Sul y Mamau

Ydych chi angen ysbrydoliaeth a syniadau i roi syrpreis i Mam ar Sul y Mamau ar y 15fed o fis Mawrth?

Wel, beth am greu cinio i Mam ar y diwrnod arbennig yma. Y mis hwn rwyf am helpu drwy ddarparu'r fwydlen. Mae'n hawdd i'w baratoi, heb ormod o ffws, ac fe allwch baratoi'r crymbl ymlaen llaw.

Felly, rhestr siopa amdani, ac ymlaen â'r ffedog er mwyn creu pryd o fwyd i ddweud 'Diolch' i Mam.

Hwyl,

*Gareth*

## Potiau Wy a Chennin

### Cynhwysion

Ychydig o fenyn

1 genhinen

4 wy

1 pot Crème fraîche

Halen a phupur



### Dull

1. Torrwch y genhinen yn ddarnau. Toddwch fenyn mewn padell ffrio a meddalwch y genhinen cyn ei rhannu rhwng 4 dysgl ramekin wedi'u hiro.

2. Torrwch wy ar bob un, ac ychydig o crème fraîche, a halen a phupur i flasau.

3. Gosodwch mewn tun pobi, gyda dŵr cynnes o'u cwmpas, a choginiwch am tua 10 munud, nes bod yr wyau wedi setio.

4. Gweinwch gyda thost.

## Porc mewn saws mwstard

### Cynhwysion

Ychydig olew

4 stecen loin porc

4 sibwsyn wedi'u torri'n fân.

Menyn

150 ml o sudd afal

200 ml stoc llysiau

2 llwy de o fwstard grawn

100 gm Crème Fraîche



### Dull

1. Cynheswch olew mewn padell a ffriwch y stêcs. Ychwanegwch y menyn a'r sibwsyn, a'u coginio am 3 munud cyn ychwanegu'r sudd, y stoc a'r mwstard a'u mud-ferwi am 15 munud

2. Curwch y crème fraîche iddo, a choginio'r cyfan ymhellach am 4 munud.

3. Gweinwch gyda thatws a llysiau.

## Pwdin Banana a Rym

### Cynhwysion

25 gm menyn

50 gm siwgr brown tywyll

2 banana wedi'u sleisio

3 meringue wedi'u malu

2 llwy fwrdd o rym

300 ml hufen



### Dull

1. Toddwch y menyn mewn sosban cyn ychwanegu'r siwgr a'i doddi.

2. I mewn â'r bananas a choginiwch yn araf am 5 munud. Gadewch i oeri cyn ychwanegu'r rym.

3. Rhannwch rhwng wydrau sundae gyda haenen o feringue.

4. Curwch yr hufen a llenwch y gwydrau. Sgeintiwch â siocled wedi ei gratio a'u gweini â mafon ffres.

## Syniadau am anrhegion o Cegin Gareth

Hamper Sul y Mamau £20. Basged wial yn cynnwys cacen wedi'i haddurno, bisgedi, siocledi, pice ar y maen, chutney, jam a marmalêd.

Basged o flodau £15 neu £20

I archebu, ffoniwch 01570 422313

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Sandra, Aled, Elin a'r teulu, Llwyn ar golli gŵr, tad a thad-cu, sef John ddechrau mis Chwefror.

## Gwellhad

Da oedd clywed fod Eleri Quan, Sŵn yr Afon a Glennis Gratwick, Sŵn y Ddôl yn well ar ôl cael triniaeth yn ddiweddar. Gobeithio y byddant yn parhau i wella.

## Bingo

Nos Wener, Chwefror 13eg, cynhaliwyd sesiwn fingo yn y neuadd dan ofal medrus Dai Davies o Langybi. Dyma'r tro cyntaf ers peth amser i bwyllgor y pentref drefnu'r fath noson ac o bob sôn roedd yn noson lwyddiannus dros ben gyda'r neuadd yn gysurus lawn. Edrychwn ymlaen at y tro nesaf. Diolch i Laura Wood am drefnu'r lluniaeth ysgafn.

## Mynwent yr Eglwys



Mae gwaith mawr ar y gweill yn Llanfair gyda thri dyn gweithgar dros ben wrthi yn atgyweirio darn o wal y fynwent a ddymchwelodd ychydig amser yn ôl. Y tri sydd wedi bod wrthi yn ddiwyd yw Ieuan Thomas, Y Felin, Tim Evans, Efail Fach a'r ddau ohonyn nhw dan arweiniad Alan Leech, Tanyresgair. Buodd ffrind i Alan Leech o Wlad Pwyl yn helpu ar adegau hefyd. Maent wedi bod wrthi bron bob dydd ers dechrau mis Chwefror ac yn gobeithio gorffen y project cyn y Gwanwyn.

## Pwyllgor y Neuadd

Mae'n hen bryd i ni dalu teyrnged i bwyllgor y neuadd dan arweiniad Mr. Dai Jones, Llanfair Fach am yr holl waith y maent yn ei wneud. Mae'r bobol sydd ar y pwyllgor wedi gweithio yn eithriadol o galed dros sawl blwyddyn i ddod â digwyddiadau gwahanol i'r neuadd i ddifyrru pobol y pentref a'r gymdeithas o amgylch. Mae hyn i gyd yn gwneud pentref Llanfair yn lle cyfeillgar iawn i fyw ynddo. Diolch iddynt.

Gweithgareddau ar y gweill: Mis Mawrth - Noson Gwis; Mis Ebrill - Noson Werin gyda Brenig Folk; Mis Mai - Helfa Drysor; Mis Mehefin - Gŵyl Gwrw; Mis Gorffennaf - Ras Hwyaidd; Mis Awst - Sioe Llanfair. (Menter Newydd).

## Sarn Helen



Hanner marathon Cors Caron Tregaron a Glyn Price yn gorffen yn y nawfed safle mewn 1:22:07 ac yn gyntaf d40, 12fed Llewelyn Lloyd 1:24:27, 13eg Carwyn Davies 1:24:31, 16eg a 3ydd d40 Michael Davies 1:25:24, 18fed Gethin Jones 1:26:30, 19eg Simon Hall 1:26:35, 29ain Kevin Regan 1:30:16, 31ain Kevin Hughes 1:31:27, 33ain Andrew Davies 1:33:14, 3ydd George Eadon 1:33:39, 40fed Huw Price 1:35:42, 45ed Tony Hall 1:36:34, 46ed Caryl Davies 1:36:44, a cyntaf menyw agored, 47fed David Thomas 1:36:58, 53ydd a 1af d60 Murray Kisbee 1:40:33, 54ydd ac 2il menyw agored Sian Roberts Jones 1:40:44, 66ed a 2il menyw 35 Eleri Rivers 1:45:33. 69fed Katie McDermott 1:46:31, 72fed Mitchell Readwin 1:46:58, 90eg Terry Jones 1:55:27, 99fed Dee Jolly 1:59:46, 101fed Dorian Rees 2:01:32 104ydd Heather Hughes 2:02:17. Enillodd Michael Davies a Caryl Davies y tarianau am ddod yn gyntaf fel rhedwyr lleol.

Yn Ystad Rhug, Corwen ger Llangollen roedd pencampwriaeth traws-gwlad Cymru a Becca Mai Roberts yn gorffen yn 19eg mewn 14:35 ras dan 13, dan 15 28ain Grace Page 22:44, ras 17/20 Caitlin Page 7fed 20:34, 8fed Ffion Quan 20:56.



Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,  
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriol a  
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

## Sianti

Uned 2 Monumental Works,  
Stryd y Fro, Aberaeron  
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org

## NOSON LAWEN

7, 8, 9, 10 Mai

Recordir 4 rhaglen yn Llambled

Os oes elusen neu achos da  
a fyddai'n hoffi manteisio ar  
y cyfle i gasglu arian trwy  
werthu tocynnau cysylltwch  
ag Eryl yn Cwmni Da,  
01286 685300

## Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,  
Heol Pontfaen, Llambled  
Ffon: 423300 Ffacs: 423223  
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth  
cyfreithiol  
Apwyntiadau hwyr neu yn eich  
cartref

## Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris  
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,  
beic modur



Yswiriant tŷ/  
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,  
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr  
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Conduct Authority

## T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

## Adloniant

### Theatr Felinfach

Yn y Clwb Gwnio ar y 9fed  
Chwefror cynhaliwyd sesiwn i gael  
blas ar wniö. Cafwyd ymateb gwyb  
ac 20 yn bresennol. Rydym bellach  
wedi sefydlu Clwb Gwnio sy'n  
cwrdd ar nos Lun.

Mae 2015 wedi dechrau gyda llawer  
o brosiectau cyffrous i'r Rhaglen  
Ddawns. Mae'r sesiynau wythnosol  
arferol wedi ail ddechrau gyda Tic Toc  
i blant 0-3oed, Clwb Gwddinis i blant  
4-6oed, Clwb Cloccio i blant 7-11 oed,  
Ioga i bawb 14+oed a Chwmni Dawns  
Rhuddem i bobl 50+oed.

Mae dau brosiect newydd wedi  
dechrau ar gyfer plant a phobl ifanc -  
Cwmni Dawns Iau Ceredigion i blant  
7-11 oed a Chwmni Dawns Ieuenctid  
Ceredigion i bobl ifanc 12-18 oed.  
Bydd y ddau gwmni yn perfformio  
sioe newydd sbon nos Iau, 2 Ebrill  
am 7.30yh yn y Theatr.

Erbyn hyn, mae'r arddangosfa gelf  
wedi newid a'r tro hyn, rydym yn  
rhoi cyfle i chwech o fyfyrwr celf  
o Brifysgol y Drindod Dewi Sant  
arddangos eu gwaith. Rydym hefyd  
yn falch i fedru parhau â'r berthynas  
sydd wedi ei sefydlu rhyngom a'r  
Brifysgol drwy'r artist lleol a'r  
darlithydd Gwenllïan Beynon.

Pleser mawr yw cael cyhoeddi ein  
bod wedi llwyddo i drefnu a sicrhau  
2 noson yng nghwmni Tri Tenor  
Cymru nos Wener a nos Sadwrn, yr  
8fed a'r 9fed o Fai. Dyma fydd y  
cyngherddau cyntaf yn y Theatr ar ôl  
cwblhau'r gwaith yn yr awditoriwm  
a fydd yn rhoi mwy o le i'r coesau  
rhwyng y rhesi.

Beth sy' Mlaen yn y Theatr?  
7/3/15 - Sioe newydd Tudur Owen  
13/3/15 - Gareth Bale yn portreadu  
GRAV; 20/3/15 - The Harri-Parris:  
THE BIG DAY; 7/4/15 - PUMP  
CYNNIG I GYMRO

## Llanybydder



Alice James, plismones gynorthwyol, gyda grŵp o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgol Llanybydder yn casglu sbwriel. Yn y llun hefyd mae Meinir Williams.



Eleri Bonning, plismones gynorthwyol, gyda grŵp o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgol Llanybydder yn casglu sbwriel yn y pentref.

### Pen-blwyddi arbennig

O fewn diwrnod i'w gilydd  
dathlodd Anthony Davies, Maes-  
y-barcud ac Elen Davies, 1  
Tynyffordd, Rhydybont ben-blwyddi  
arbennig ac yn nes at ddiwedd y  
mis dathlodd Ray Jenkins, Gelli  
House, Betty Jacob, Gorwel a Doris  
Wilson, Heol y Gaer eu pen-blwydd  
hwythau. Gobeithio eich bod i gyd  
wedi mwynhau'r dathliadau!

### Diolch

Dymuna Beti Jacob, Gorwel  
ddiolch i bawb am y cardiau,  
anrhegion a'r dymuniadau da ar  
achlysur pen-blwydd arbennig.

### Gwellhad buan

Gobeithio bod Gary Jones, 2  
Tynyffordd, Rhydybont yn well ar  
ôl iddo dreulio rhai diwrnodau yn yr  
ysbyty.

## O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Ers tair blynedd nawr, rwy' wedi bod yn ffodus i fod yn llefarydd fy mhlaidd dros ieched. Mae hyn yn sicr wedi rhoi  
cyfle i mi weld y problemau o fewn ein gwasanaeth ieched, ond hefyd i gwrdd â llawer o staff, gofaluwr a grwpiau  
gwirfoddol sy'n gwneud gymaint yn ein cymuned. Dros y mis diwethaf, cwrddais â meddygon ac ymchwilyr sydd  
ar flaen y gad yn datblygu triniaethau newydd i gancr, a chymdeithasau sy'n ymwneud â phynciau mor amrywiol a  
phwysig ag MS a ieched meddwl.

Ond yn fwy na dim, mae'r rôl wedi bod yn gyfle i mi ddadlau'r achos dros yr angen i gael model gwahanol i'r  
gwasanaeth ieched mewn ardaloedd gwledig fel Ceredigion. Yn gynyddol, mae rhai o gynrychiolwyr y proffesiwn  
meddygol yn pwysleisio'r angen i arbenigwyr weithio mewn unedau mawr, sy'n trin cannoedd o gleifion gyda'r un  
math o salwch, er mwyn datblygu eu sgiliau. Gallaf ddeall y ddadl, ond o weithredu polisi fel yma i'r eithaf, byddai  
gwasanaethau gwledig yn cael eu canoli fwyfwy mewn ffordd hollol annerbyniol.

Mae'n rhaid cael cyfundrefn wahanol, fwy hyblyg, mewn ardaloedd fel Ceredigion. Dyna pam yr wyf mor falch fod  
Adroddiad Longley ddiwedd y llynedd wedi cydnabod hynny. Ar ôl cymryd tystiolaeth eang o Geredigion, amlinellodd  
y math o fodlau gwahanol gellid eu dilyn, a rhoddodd weledigaeth o wasanaeth ieched modern, a fyddai'n integreiddio  
gofal meddygol a chymdeithasol, yn cryfhau gwasanaethau cynradd a lleol, ac yn rhoi lle canolog i Ysbyty Bronglais.

Y dasg yn awr yw sicrhau fod y weledigaeth hon yn cael ei gweithredu. Newyddion calonogol oedd penodiad  
cyd-gadeiryddion i arwain y corff newydd fydd yn cynllunio gwasanaethau yn y canolbarth – Dr. Ruth Hall y  
cyn Swyddog Meddygol Cenedlaethol, a Jack Evershed sydd wedi bod yn ymgyrchydd cryf dros ieched yng  
Ngheredigion ers blyneddau. Mae tipyn o waith o'u blaenau, ond gobeithiaf dros y flwyddyn nesaf y gwelwn  
ddatblygu model newydd o ysbyty cyffredinol gwledig ym Mronglais; ymgais gwirioneddol i ddelio efo'r problemau  
wrth recriwtio staff meddygol; bwrw ati gyda chynllun Cylch Caron; dechrau ar Ysbyty newydd Aberteifi gyda'r  
cyfleusterau y mae'r gymuned eu heisiau; ac integreiddio gofal cymunedol ar draws y sir.



# Drefach a Llanwenog

## Eglwys Santes Gwenog

Mae tymor y Grawys yn ein hatgoffa am ddioddefaint a disgyblaeth yr Iesu yn ymptydio yn yr anialwch am ddeugain niwrnod. Dyma'r adeg i ninnau hefyd ddangos ein disgyblaeth gan osgoi gwneud pethe sy'n bleserus i ni, neu fwyta rhyw fwydydd ry'n ni'n eu hoffi.

Hen draddodiad ar ddechrau'r Grawys oedd osgoi bwydydd â chysylltiad ag anifeiliaid. Felly roedd y gwragedd yn gwneud crempogau neu bancws ar ddydd Mawrth Ynyd i ddefnyddio'r llaeth, y wyau a'r blawd. Ni ddefnyddiwyd y cynhwysion yma yn ystod y Grawys. Ni welir blodau yn addurno'r allor chwaith. Er bod y cyfnod yma'n un trist, mae gobaith yn ein heglwys wrth baratoi gogyfer â gŵyl fawr y Pasg. Bydd y ficer, y Parchedig Suzy Bale yn ein harwain mewn gwasanaeth a Swper Agape, dydd Iau Cablyd, yr ail o Ebrill am 7 o'r gloch. Bydd hwn yn wasanaeth undebol i Eglwys Llanybydder, Llanwnnen a Llanllwni. Croeso cynnes i chwi gyd ymuno â ni.

Bydd gwasanaeth Sul y Pasg a Chymun Bendigaid am 9.30 y bore ar Ebrill y 5ed. Aelodau'r Allor i gwrdd am 4 o'r gloch ar y 3ydd o Ebrill i addurno'r Eglwys. Manylion pellach oddi wrth Mary Thomas ar 434200.

Ein dymuniadau gorau i bawb sy'n anhwylus, gartref neu yn yr ysbyty. Ein cofion at Bronwen Jones, Greenhill sydd ar hyn o bryd yng nghartref Hafan Deg.

Clwb Cant Rhagfyr 2014.

1. Karen Mellor, Rhiwson Isaf; 2. Richard Thomas, Llechwedd; 3. Owain Abbot, Rhiwson Isaf; 4. Terry Pocock, Llambod; 5. Garry Davies, Llanwenog. Ionawr 2015 1. Clive Davies Llanwenog; 2. Charlie Boucher Llanybydder; 3. Mair Davies, Highmead Cottages.

## Diolch

Dymuna Eifion Davies, Afallon, ddiolch o galon am y llu cyfarchion ac anrhegion dderbyniodd ar achlysur pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

## Y Gymdeithas Hŷn

Daeth 25 o'r aelodau ynghyd ar yr 11eg o fis Chwefror yn Eglwys Llanwenog a chroesawyd pawb yn gynnes gan Dilwen George, y cadeirydd. Diolchwyr i'r ficer ac i aelodau'r Eglwys am gael cynnal ein cyfarfod yno.

Cydymdeimlwyd ag Eirwen Evans, Gorsgoch sydd wedi colli ei chwaer yn ddiweddar.

Dymunwyd gwellhad buan i bedwar o'r aelodau oedd wedi bod yn anhwylus neu yn

derbyn triniaeth mewn ysbyty, a dymunwyd yn dda i bedwar arall oedd wedi, neu ar fin dathlu pen-blwydd. Y siaradwraig wadd oedd Hazel Thomas, Penpompren. Cyflwynwyd a chroesawyd hi'n gynnes gan y cadeirydd, gan ddiolch iddi am ddod atom ar fyr rybudd.

Bu Hazel yn sôn am ei gwaith yn y Llyfrgell Genedlaethol lle mae'n rheoli prosiect 'Casgliad y Werin' ac yn arwain tîm o bedwar. Cofnodi lluniau a straeon llafar pobol Cymru yw'r nod, a bu'n dangos lluniau o hen deulu Penpompren y mae hi wedi eu digideiddio. Roedd rhain o ddiddordeb mawr i aelodau'r Gymdeithas Hŷn.

Calondid mawr iddi oedd gweld fod nifer o'r aelodau wedi dod â deunydd ganddynt i'w sganio y prynhawn hwnnw. Tra bod pawb yn mwynhau eu te a'u lluniaeth, bu Hazel wrthi'n brysur gyda'r sganiwr a'r cyfrifiadur yn creu casgliadau Llanwenog.

Diolchodd Brenda Jones yn gynnes i Hazel am roi'r wybodaeth hyn am ei gwaith, a chyfeiriodd Brenda at y newid sydd wedi dod i bentrefi cefn gwlad â'r dull o fyw wedi newid yn aruthrol. Braf yw gweld gwaith fel hyn yn cael ei wneud er mwyn cofnodi bywydau pobol a'u ffordd o fyw.

Beryl Lewin fu'n gyfrifol am ddiolch i wragedd Eglwys Llanwenog am ddarparu te a lluniaeth blasus ar ein cyfer.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd ar yr 11eg o fis Mawrth am 1.30 ym pan fydd plant yr ysgol yn darparu adloniant ar gyfer yr aelodau.

## Sefydliad y Merched

Eleni mae hi'n flwyddyn bwysig i'r Sefydliad gan ei bod yn gan mlynedd ers y cychwyn cyntaf yn Sir Fôn. Felly fe fydd sawl gweithgaredd arbennig yn cael eu trefnu yng Ngheredigion, yn ogystal ag ar draws Cymru gyfan yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliwyd Gwasanaeth yn Eglwys Dewi Sant, Llanddewi Brefi ar Ddydd Gŵyl Dewi; mae gweithdy gosod blodau yn Neuadd y Pentref, Dihewyd ar 28ain Mawrth, ac fe fydd Cinio Bwffe yn Llanerchaeron ar y 13eg o Fehefin; Arddangosfa Canmlwyddiant y Sefydliad yn Amgueddfa Llambod ym mis Medi, heb sôn am ambell i barti lleoli!

Mae cangen SYM Llanwenog mor brysur ag erioed. Trefnir siwrne i Gastell Powys ar 1af o Fai; taith i'r Ynys Bŷr ym Mehefin; ymweliad ag Aberteifi – i ganolfan hufen ia, a hwylio ar y Teifi, ac mae trefniadau ar y gweill i weld y sioe 'Legally Blonde' yn

Aberystwyth ar Awst 4ydd.

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs Annie Bowen, un o'r aelodau gwreiddiol, sydd erbyn hyn mewn cartref yng Nghaerdydd, yn agos i'w theulu.

Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ysgol Llanwenog, nos Iau, Mawrth 5ed pan fydd un o'r aelodau, Mrs Julia Griffiths-Jones yn siarad am Hen Greiriau'r Dyfodol (Tomorrow's Antiques).

## CFFI Llanwenog

Ar ôl gwledd yng nghinio blynyddol y clwb yng Ngwesty'r Marine ar y 31ain o Ionawr, roedd pob un yn barod am fis prysur o ymarfer go gyfer â chystadleuaeth pantomeim CFFI Ceredigion. Trwy gydol mis Chwefror fe fu yr aelodau yn mynychu ymarferion yn ddi-ffael, gan gael llawer o sbort yng nghwmni ei gilydd. Nos Iau y 19eg o Chwefror, tro CFFI Llanwenog oedd hi i berfformio ar lwyfan Theatr Felinfach o flaen y beirniad Mr. Deiniol Wyn Rees. Fe wnaeth yr aelodau roi eu gorau glas i'r perfformiad sef 'Hosanna Pâr o Sana!' gan Enfys Hatcher, Elin Jones a'r criw, gan ddod yn fuddugol ar ddiwedd y cystadlu – DA IAWN CHI!

Llongyfarchiadau anferth hefyd i Rhys Davies a enillodd yr Actor Gorau 16 oed neu iau gan ennill Tarian Mr a Mrs Alwyn Evans. Yn ogystal â hyn, enillodd y clwb Gwpan Coffa Arthur Davies am y cynhyrchiad gorau a Chwpan Theatr Felinfach am y Perfformiad Technegol Gorau. Felly, diolch i Mrs Linda Jones am ei gwaith caled fel cynhyrchydd.

Mae'r aelodau nawr yn mynd ymlaen i berfformio ar lwyfan Theatr y Grand, Abertawe ar Fawrth y 7fed felly ewch ati i brynu tocyn yn syth!

Os oes gennych diddordeb ymuno â'r clwb neu jyst eisiau rhagor o wybodaeth, ymwelwch â'n gwefan sef: [www.cffillanwenog.org.uk](http://www.cffillanwenog.org.uk)

## Pen-blwyddi arbennig

Dathlodd Mark Evans ei ben-blwydd yn 50 ddechrau mis Chwefror.

Hefyd, ddiwedd y mis dathlodd Mrs Gwenda Davies, Bwlchmawr ben-blwydd arbennig.

Gobeithio i chwi eich dau fwynhau'r dathlu!

## Swydd Newydd

Erbyn hyn mae Rhian Thomas, Llechwedd wedi llwyddo fel plismones ac yn gweithio o Orsaf yr Heddlu yn Aberystwyth. Pob dymuniad da i ti Rhian i'r dyfodol.

## LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
  - Symud celfi
  - Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
  - Wedi yswirio'n llawn

**01570 481029**

Lakefield, Llanybydder  
SA40 9RL



CELFY CEGIN A 'STAFELL  
WELY, ATELOGION CEGIN  
WEDI EU FFITIO,  
TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER,  
SGWAR Y FARCHNAD,  
LLANYBYDDER

**01570 480257**

## Gwersi TELYN a Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach  
cysylltwch â  
**Georgina Cornock-Evans**  
**07967 648336**

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw  
- Boileri a Ffyrnau Olew  
- Pymptiau Gwres o Ffynonhellau'r  
ddae'r awyr  
- Paneli Thermal Solar  
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183  
[aled.evans1@btinternet.com](mailto:aled.evans1@btinternet.com)



Teithiau o Safon



**Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau (5 diwrnod)**  
Mae Jones Login wedi danfon taith i'r Eisteddfod Genedlaethol ers sawl blwyddyn bellach. Eleni gyda'r Eisteddfod yn Meifod, fydd y bws yn teithio trwy Chaerfyrddin, Llanbed, Dyffryn Aeron, Aberaeron, Aberystwyth a Machynlleth ar ei ffordd i Meifod.

**Yn gynwysiedig**  
Teithio mewn bws moethus, 4 Noswaith o swper, gwely a brecwast yng Ngwely Ramada Wrecsam, Teithiau dyddiol i'r Eisteddfod (Dydd Mawrth i Ddydd Gwener), Yswiriant teithio - Rhad ac am ddim.

|                               |         |
|-------------------------------|---------|
| Dyddiad                       | Pris    |
| Mawrth 4 i Sadwrn 9 Awst 2015 | £349.00 |
| Atodiad ystafell sengl        | £80.00  |

Am fwy o fanylion, neu archebiod cysylltwch â ni.  
Jones Login, Hendygywn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0UX  
Ffôn: 01437563277 / [www.joneslogin.co.uk](http://www.joneslogin.co.uk)



# Llangybi a Betws



Wyres ac wyron y diweddwr Mr. Iorwerth Evans, Llangybi yn cyflwyno sic i Gymdeithas Alzheimer. Rhoddwyd cyfanswm o £1,200 gan deulu a ffrindiau er cof am Iorwerth. Cyflwynwyd y sic yn swyddfa Ceredigion sydd wedi symud yn ddiweddwr o Aberporth i Llanbed (Bryndulais, 67 Stryd y Bont). O'r chwith i'r dde: Steffan a Lisa o Llangybi, Kate Naidoo (Gweithwraig Cefnogi Dementia) ac Osian ac Ifan o Aberystwyth. Dymuna'r teulu ddiolch o galon am yr holl gyfraniadau hael.



Cynhaliwyd Noson Gyflwyno yng Ngwesty Llanina Llanarth ar 7fed Chwefror 2015 i gyflwyno sic am £8,530 i Ymchwil Cancer Cymru, er cof am Meiryl Rowcliffe-Davies a fu farw ym mis Mai 2014. Codwyd yr arian gan Apêl May drwy gynnal Raffl ac Arwerthiant. Dymuna teulu a ffrindiau May ddiolch i'r holl fusnesau ac unigolion a gyfrannodd wobrau, i bawb a ddaeth i'r noson, ac i'r arwerthwr Dylan Davies. Yn y llun gwelir Eifiona Davies, Nia Davies, Alun Davies, David Rowcliffe, Doreen Daniels, Carol Davies (Ymchwil y Cancer), Andrew James, Carina Sawford, Tony May, Emma Crees (Gwesty Llanina), Sam Etheridge. Llun: Phill Davies.



Stefan Davies a Justin Davies wedi ennill Rali Bro Caron yn Llanbed yn ddiweddwr. (Llun: Dafydd Hughes).

## Hamdden

Cyfarfu yr aelodau ar Chwefror 6ed yn Ysgol Y Dderi gyda'r llywydd Dilys Godfrey yn y gadair. Y wraig wadd oedd Beca Hulme a bu yn siarad am 'Y Wiwer Goch' gan ddangos lluniau hyfryd ohonynt ac esbonio pam bod eu nifer wedi gostwng yn enbyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond maent ar gael o hyd mewn rhai rhannau o ganolbarth Cymru.

Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gwresog i'r wraig wadd am brynhawn hyfryd a diddorol gan Rita Jones.

Enillwyd y raffl gan Joyce Harris, Barry Williams, Morina Davies, Mair Spate, Gwen Lewis a Rowena Williams. Rhoddwyd y te a'r bisgedi gan Dilys Godfrey a Gwen Lewis. Fe fydd y cyfarfod nesaf yn y Clwb Golff, Llangybi i ddathlu G y l Ddewi ar ddydd Gwener, Mawrth 6ed am 12-12.30. Fe gawn gawl a tharten afal neu reis.

## Merched Y Wawr Y Dderi

Cyfarfu'r gangen ar Chwefror 11eg yn Ysgol Y Dderi dan lywyddiaeth Gwyneth Jones. Croesawyd y wraig wadd y Fon. Eirwen James yn gynnes iawn ac fe gawsom noson fendigedig yn ei chwmni. Sôn y bu am ferched o ardal Tregaron yn teithio i Lundain yng nghwmni'r porthmyn i weithio yn y gerddi. Roedd y gwaith yn drwm ond i gymharu â bywyd gwledig gwerin Cymru nid oedd mor ddrwg â hynny. Roedd modd ennill arian, yn wahanol i fywyd ar y fferm gartref. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gwresog i'r siaradwraig am noson mor ddifyr, diddorol ac hanesyddol.

Rhoddwyd y raffl gan Mary Jones ac enillwyd gan Glenys Lloyd ac Irene Lewis. I ddiweddu'r noson cawsom baned o de a bisgedi wedi eu rhoddi gan Deborah a Gwyneth Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 18fed yn y Pantri 6.30 i 7.00y.h. Y gwesteion fydd Mr & Mrs Gareth Jones.

## Ysgol Y Dderi

Yn rhan o thema blwyddyn 5 a 6 "Technowych" daeth Mrs Kay Morris i gynnal gweithdy "Green Screen." Bu'r disgyblion yn defnyddio ap "Studio

FX" i greu pob math o effeithiau, gan gynnwys mell t a tharanau, T-rex, tân gwyllt a ffrwydradau. Am hwyl a sbri!

Daeth Buddug o gwmni Mewn Cymeriad i siarad â disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn rhan o'u thema "Breuddwyd i Dderwydd." Yn dilyn y cyflwyniad rhyngweithiol cyffrous yma, penderfynodd y plant gynnal Diwrnod Celtaidd, gan wisgo yn nillad y cyfnod, pobi bara a chafwyd perfformiad gan saith o ferched sy'n cael gwersi telyn yn yr ysgol.

Mae Gethin Page, swyddog datblygu rygbi'r sir, wedi bod yn ymweld â'r ysgol, i gynnal gwersi gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 er mwyn datblygu eu sgiliau. Mae'r plant yn mwynhau y sesiynau yn fawr, felly diolch o galon iddo.

Daeth Cwmni Theatr Arad Goch i'r ysgol i berfformio sioe "Oes rhaid i mi ddeffro?" i'r Cyfnod Sylfaen. Ymunodd Cwmni Teledu Tinopolis â ni er mwyn ffilmio ymateb y plant i'w ddarlledu ar Heno. Roedd y sioe yn wych a'r profiad o ffilmio ar gyfer rhaglen deledu yn ychwanegu at y cyfan.

Croesawyd Mr Urdd i'r ysgol ar ddiwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd y cylch. Roedd pawb wedi gwisgo i gyd-fynd â Mr Urdd ac roedd pawb yn falch iawn o'i weld.

Ar y 10fed o Chwefror, sef Diwrnod Rhyngwladol Diogelwch y We, daeth PC Alun i'r ysgol i gyflwyno gwybodaeth bwysig ar sut i ddefnyddio'r we yn ddiogel. Yn yr oes dechnolegol sydd ohoni, mae'n hollbwysig fod pawb yn ei ddefnyddio yn ddiogel. Diolch i PC Alun am ei negeseuon pwysig.

Bu Miss Tsing, ein hathrawes o Tsieina, yn arwain amrywiaeth o weithgareddau i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, sef blwyddyn y ddafad eleni. Bu'r plant yn mwynhau sesiwn ddrymio, yn creu llusernau, canu caneuon traddodiadol, dawnsio'r ddawns draddodiadol "Dawns y Llew" ac yn mwynhau cinio Tsieineaidd blasus.



Aeth Dwynwen, Chloe, Ioan a Gruffydd i Norwy yn rhan o waith Ewropeaidd yr ysgol. Bu'r plant yn ymweld ag Ysgol Gjerstad ger Oslo, ac yn mwynhau bywyd fel disgyblion Norwyeg am wythnos! Cawsom nhw'r profiad o hedfan mewn awyren, sgïo traws gwlad, sgelfrio ar y llyn, coginio selsig yn yr awyr agored, gyrru sgîdŵ, yfed siocled poeth mewn iglw, a slejo bob amser chwarae! Cawsant gyfle hefyd i wneud llawer iawn o ffrindiau newydd a'u dysgu am Gymru. Cawsant groeso bendigedig a chyfle i greu atgofion melys.





Tyngrug-Ganol,  
Cwmsychpant,  
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliu hanner tymor. Rwy'n siwr eich bod chi gyd wedi bod yn brysur yn yr ysgol yn ddiweddar yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Ydych chi'n cystadlu? Wel pob lwc i pob un ohonoch ar y llwyfan, a gwnewch eich gorau glas!

Unwaith eto y mis hwn bu llawer ohonoch wrthi'n lliwio llun y trê bach ac roedd sach y postmon yn llawn iawn. Llongyfarchiadau i bawb ond yn enwedig i Mared Pugh a Ioan Price o Dalsarn, Dwynwen Mai Williams o Bencarreg, Betsan Davies o Langeitho, Iestyn Evans ac Erin Evans o Lanllwni, Holly Ann Davies o Abertawe, Jack Bartlett o Gribyn, Katie Little, Liam Regan a Tomos Dalton o Bont Creuddyn, Naomi Jones o Gilcennin, Seren Evans, Liwsi Brown, Chloe James, Soffi Morgan a Leila Brown o Felinfach am luniau lliwgar. Ond mae un yn dod i'r brig sef un taclus Lloyd Thomas, Llain Teifi, Cae Coedmore, Cwmann. Da iawn ti Lloyd.

Wel 'dw i wedi bod yn helpu fy ffrind Alaw'r aderyn i ymarfer ei gân ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Fedrwch chi liwio'r llun yma o Alaw yn ymarfer a'i ddychwelyd yn ôl i mi cyn diwedd y mis?

Hwyl am y tro,



Enillydd  
y mis!

Lloyd  
Thomas

#### Ysgol Feithrin Llanybydder

Bydd Ysgol Feithrin Llanybydder yn cynnal Noson Bingo yn y Clwb Rygbi ar y 24ain o Fawrth am 8.00 o'r gloch. Gwobrau ariannol.

Ariennir yn rhannol gan **Lywodraeth Cymru**



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enillydd Pecyn Stwnsh am gwblhau'r croesair y mis diwethaf yw: Ffion Morgan, Llys Owen, Cribyn [7 oed].

## Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



### CROES CWRLWYS LECWYDD YNYSTON (71)

Dyrnoid o enwau ar gyron Caerdydd sy'n cael sylw y tro hwn.

CROES CWRLWYS - 'Croesheol' oedd yr enw Cymraeg ganol y ddeunawfed ganrif; mae'r enw Saesneg 'The Crossway' yn digwydd ryw hanner canrif cyn hynny. Disgrifia'r elfen 'croes' ffyrdd neu strydoedd sy'n croesi ei gilydd yn hytrach na chyfeirio at groes ar ymyl y ffordd neu groes sy'n nodi ffin. Roedd 'Erw'r cwrlwys' yn enw ar gae cyfagos

Roedd fferm fechan o'r enw 'Culverhouse' gyferbyn â'r groesffordd ar un adeg; lledodd yr enw hwn bellach i ddynodi'r drefn gymhleth o ffyrdd sy'n arwain i wahanol rannau'r brifddinas, i gyfeiriad yr M4 a thua'r gorllewin. Daw'r elfen gyntaf yn enw'r fferm, sef 'culver', o'r Hen Saesneg a'i ystyr yw 'colomen'. Ystyr Culverhouse yw 'colomendy'. Mae Culver Cliff (Ynys Wyth) a Culverstone Green (Caint) yn enwau ar leoedd yn Lloegr sy'n cynnwys yr un elfen. O Culverhouse 'colomendy' y datblygodd 'Cwrlwys'

LECWYDD - Dyma enw diddorol arall yng nghyffiniau'r brifddinas. Y farn draddodiadol yw mai ffurf ar 'llechwedd' sef ochr bryn a gynrychiolir gan enw'r pentref hwn sydd rhwng Caerdydd a Phenarth.

Yn ôl barn arall, mae Lecwydd yn cynrychioli enw ar sant cynnar sef Helygwydd, a'r enw hwnnw'n cynnwys yr elfennau 'helyg' (sef salix) a gwýdd' (sef coedwig). Mae'r enw'n digwydd mewn dogfen gynnar ac yn cael ei gysylltu hefyd â ffynnon gysegredig ym Mathern yng Ngwent.

Os derbynnir yr ail ddehongliad mae'n enghraifft o bentref neu blwyf sydd wedi mabwysiadu enw sant ond heb ddewis 'llan' neu 'eglwys' neu 'ferthyr' i'w ragflaenu. Dyna a ddigwyddodd hefyd yn achos Baglan (Sir Forgannwg), Gwytherin (Sir Ddinbych), Llywes (Sir Faesyfed) a Ceido (Sir Gaernarfon).

YNYSTON - Mae map diweddar o ardal Lecwydd yn dangos fferm o'r enw Ynyston. Ar yr olwg gyntaf gellid tybio fod yr enw yn cynnwys dwy elfen Gymraeg: 'ynys' (sef dŵl ar lan afon) a 'ton' (sef tir heb ei aredig).

Ond ymhlith y ffurfiau cynnar ar yr enw ceir 'Easttown'. Mae'r fferm ei hun ar ffin ddwyreiniol y plwyf ac yn cynnwys elfen Saesneg sy'n nodi'r lleoliad daearyddol yn glir ynghyd ag ail elfen Saesneg 'ton' sy'n golygu 'fferm'.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. [www.cymdeithasenwaulleoeddymru.org](http://www.cymdeithasenwaulleoeddymru.org) [enwaulleoedd@gmail.com](mailto:enwaulleoedd@gmail.com)



# Gwaith da ysgolion y dalgylch



Mr Urdd yn ymweld â disgyblion Ysgol Llanwnnen.



## A ydych chi'n chwilio am y ffordd orau i deithio o amgylch cefn gwlad Sir Gaerfyrddin a Cheredigion?

Beth am ymweld a'r amrywiaeth o atyniadau sydd gan Sir Gaerfyrddin a Cheredigion i'w cynnig yn ystod eich gwyliau... **rhowch gynnig ar Bwcabus!**



Mae Bwcabus yn galluogi pobl i deithio rhwng pentrefi a threfi lleol ym mharth Bwcabus neu i gysylltu â'r prif wasanaethau bysiau gan deithio ymhellach i lefydd megis Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Chaerfyrddin.

Beth am fynd allan am y diwrnod ar y bus – gallai fod yn docyn delfrydol

Llinell archebu ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 7am - 7pm

**01239 801 601**

Gwasanaeth yn gweithredu o dydd Llun i dydd Sadwrn o 7am - 7pm



## Hyblyg, Rhesymol, Economaidd, Cyfleus



University of South Wales  
Prifysgol De Cymru





# Cwaith da ysgolion y dalgylch



Eleri Bonning ac Alice James, dwy blismones gynorthwyol, yn ystod ymweliad â disgyblion Ysgol Llanybydder. Buon nhw'n trafod pwysigrwydd peidio â thaflu sbwriel ar y stryd ac yn esbonio ei bod hi'n bosib cael dirwy o £70 am wneud.

Mr Urdd yn cyfarch disgyblion Cylch Meithrin Carreg Hirfaen



Rhai o blant Dosbarth Meithrin Ysgol Bro Pedr ar eu trên bach yn dathlu Gŵyl Ddewi. Mwy o luniau ar dudalennau 11 a 12.

Miss Tsing, athrawes o Tsieina, yn arwain gweithgareddau i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn Ysgol y Dderi.